This briefing note has been prepared, at the request of the Local Government and Housing Committee, to provide details of housing associations who provide market rent properties as part of the domestic arm of their commercial portfolios.

Please note that this briefing is based mainly on informal feedback from a small number of housing associations.

### Background and current practise

Housing associations across Wales have different business plans, governance and finance structures to help them deliver their social purpose. Commercial activity between housing associations differs vastly, but many associations are exploring affordable and intermediate housing options to deliver alongside their socially rented homes in line with their common purpose to provide good quality, affordable homes in their communities. .

When many housing associations were formed following stock transfers from local authorities some inherited a commercial portfolio which may have included; retail units, garages etc. More recently, many associations have expanded their domestic commercial portfolio by delivering Rent to Own, Shared Ownership, Shared Equity, Affordable Rent and Intermediate Rent properties. Our understanding is, however, that market rent, private rented activity remains limited amongst RSLs in Wales.

Type of housing	% of HAs
Affordable Rent	38%
Shared Ownership	44%
Market Rent	15%

\*Table produced to provide **an estimate** of the services delivered by associations across Wales.

Specific to market rent portfolios there are two main ways housing associations operate:

1. **Full landlord service:** Housing associations are the landlord and the letting agent
2. **Management service:** Housing associations manage properties and / or provide a letting service on behalf of private landlords.

From conducting conversations with our members, it seems that some housing associations who operated a management service have ceased this practice. This note therefore focuses on direct, full private landlord services offered by housing associations in Wales.

### Benefits of housing association involvement in private rented sector

- Delivering a small percentage of market rents on new developments aids with the viability of the project, enables housing associations to maximise Social Housing Grant (SHG) and increase the level of private finance that they can access.
- Rental income from private sector portfolios are also fed back into the business to support the delivery of more social homes and services for social tenants.

- Housing associations have moved away from mono-tenure development and are committed to delivering balanced communities through providing a choice of different housing options to suit personal needs.
- If a housing association delivers many different types of housing options then this allows for greater mobility and flexibility in the housing ecosystem. For example; if a tenant is in private rented accommodation but struggling to keep up with their housing costs then the association can intervene early before housing debt becomes unmanageable and engage with the tenant so they can consider whether this housing tenure is the best option for them. Similarly, if a tenant in the socially rented sector has outgrown their current accommodation and their financial situation has improved they could consider, with support from the housing association, whether intermediate, affordable or market rent properties might be more suitable for their current situation (see appendix for case study).
- Housing associations are ethical landlords who can offer tenants within the PRS a secure, long lasting tenancy.
- Ultimately, housing associations with a portfolio in market rent are finding that there is demand for PRS options. The PRS sector currently makes up 13% of all dwellings in Wales<sup>1</sup>.

### Opportunities to go further

- The Welsh government should work towards a holistic, joined up approach across all tenures to tackle the current levels of housing need in Wales. The private rented sector plays an important role in the overall housing system. Housing associations can support this by providing good quality housing to private tenants that supports wider social aims.
- CHC's recent research, *A study of housing association allocations in Wales (January 2024)*, found that only 2% of allocations in our cross-sector sample were intermediate housing options. We would like to see social and intermediate housing stock considered in the round when finding the right match for a person or household.
- Ultimately, housing associations are not for profit organisations with social good as their core purpose. Whilst diversification into offering private, market rent may be able to play a role in supporting this, it will inevitably be on a limited scale as the focus is on social homes.

*To discuss this briefing further, please contact Elly Lock or Rhea Stevens, heads of policy and external affairs at Community Housing Cymru.*

---

<sup>1</sup> Stats Wales, [Dwelling stock estimates percentages by year and tenure](#), 2022

## Appendices

### **Case Study 1: Newport City Homes commitment to building balanced communities**

Since 2022, most developments brought forward by Newport City Homes are mixed tenure schemes. At the moment they currently deliver: 81 market rent properties, 37 Intermediate Rent and 15 Rent to Own properties with plans to expand these provisions over the coming years.

At the beginning of their journey, they worked with a local estate agent Peter Alan to manage the letting of the properties and initially these were let through fixed term contracts.

However, recently the Commercial and Home ownership team at Newport City Homes are in the process of taking over the workload and changed the majority of the lets to periodic occupation contracts. However, a small percentage of allocations in Newport City Centre have been offered as fixed term to try to address the high turnover they were experiencing in these properties.

### **Case Study 2: Newport City Homes working with local authority to alleviate homelessness by utilising different housing options**

Newport City Homes worked with a social housing family who were in desperate need to transfer from a three to a four-bedroom house, and who were registered on the social housing register. Financially the family were able to afford the higher rental payment for an Intermediate rental property. Newport City Homes rehoused them in a brand new four-bedroom house and they are now comfortably affording their intermediate rent releasing a social housing unit.

In addition, Newport City Homes worked with Newport City Council to complete an exercise to identify people on the social housing waiting list that were registered as statutory homeless and in employment. These customers were then contacted and those eligible were offered an intermediate rental property to enable them to move to a suitable, long term home as soon as possible.

### **Case Study 3: Adra scaling market rent portfolio**

Adra currently delivers 75 market rent homes and they have 50 more properties on site at the moment. They have found these properties to be particularly popular especially in Gwynedd and other rural areas where the concentration of Second Homes and short-term holiday lets are high. Developing sites with a small percentage of market rents has also helped meet the needs and aspirations of local communities, and facilitated planning consent which favours mixed tenure sites.

Adra has also worked with Betsi-Cadwaladr health board to provide homes for market rent near Glan Clwyd Hospital in St Asaph. These homes are let to nurses due to the shortage of adequate housing supply in this market.



John Griffiths MS  
 Chair of the Local Government and Housing Committee  
 Welsh Parliament  
 Cardiff Bay  
 Cardiff CF99 1SN

10<sup>th</sup> April 2024

Dear Chair,

**Private rented sector: Paragon response to request for written evidence on select matters**

Introduction

I would firstly like to offer my sincere thanks to you for the invitation to give evidence before the Local Government and Housing Committee as part of this vital inquiry into the private rented sector (PRS) in Wales. I hope that the answers we were able to provide will help to inform the subsequent findings and lead to substantial recommendations about how the PRS could be further supported into the future for the benefit of both tenants and landlords.

To provide further background, Paragon pioneered Buy-to-Let (BTL) lending in the UK, launching the first products in 1995, and we have consistently led the development of socially responsible BTL lending policies over the last two decades. We remain committed to supporting the growth of the PRS in Wales, and today we have over £400 million of active lending supporting almost 2,000 individual accounts.

Response to questions

In addition to the evidence we shared on 13<sup>th</sup> March, we would be pleased to provide further views in relation to the matters you outlined in your letter, where possible.

- Firstly, we support the ambition of Leasing Scheme Wales and believe this has potential to increase the availability of good quality and affordable homes in the PRS for those who are most vulnerable in society, while at the same time, providing landlords with the guarantees they need that their properties will be looked after for the duration of the lease. To ensure the Scheme can perform as best as possible, we would encourage the Welsh Government to work in partnership with the BTL sector to identify practical solutions to increase the attractiveness of the Scheme and build awareness to ensure greater uptake.
- We also recognise that Local Housing Allowance (LHA) rates will increase this April which will be of significant benefit to tenants who are most at risk of homelessness, as well as provide landlords who are enrolled on the Scheme with greater certainty over their rental income.
- Paragon is supportive of the proposal to introduce a duty on landlords to refer their tenants to homelessness services if the tenancy is at risk. We do not feel this is burdensome on the landlord, but we would like to see this requirement extended to letting/management agencies if the landlord utilises these services.
- Whilst the proposal to allow for greater flexibility in HMO arrangements, for example where mutual support may be required, seems practical, as a lender it is not our place to stipulate which type of tenant may live in a property or the profile of tenants in HMOs. That is the role of the landlord. However, we do believe that a property portal would be a practical solution to help facilitate this situation and lead to improved outcomes more broadly across Wales. This is something that is being introduced in England and should help improve overall standards, particularly if lenders, landlords and tenants have equal access.

Wider points to note

- We would like to take this opportunity to impress upon the Welsh Government the importance of taking a more holistic and strategic approach when looking at the contribution that all tenures can

make to meeting the needs of tomorrow's population. Within this, the PRS clearly has a role to play in providing good quality and affordable accommodation to a range of tenants, and a significant number of people rely on the sector for the high-quality employment it provides.

- A recent [report](#) we published jointly with the National Residential Landlords Association (NRLA) – produced by PWC – highlights just how important the PRS is to the economy of Wales, supporting an estimated 14,000 jobs in areas such as construction and building maintenance, while contributing £1.6 billion to the Gross Value Added (GVA) of Wales.
- Nevertheless, better data on the housing market will be central to the development of effective policy to address Wales' housing needs. From Paragon's perspective, our lending is mostly concentrated in towns, cities and coastal areas across Wales where there is a distinctly better source of data available on factors which indicate the overall health of the local market. To help create better conditions for increasing the provision of finance and supporting investment in the PRS, particularly in rural locations in Wales, we urge the Welsh Government to come forward with proposals for a Welsh Housing Survey as soon as possible.

I hope the views provided in this response will be of use to the Committee as it undertakes further evidence sessions and considers its findings from the inquiry. Please let me know if you require further information, and my colleague Will Monks ([will.monks@dentonsglobaladvisors.com](mailto:will.monks@dentonsglobaladvisors.com)) will be able to assist.

Kind regards,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Richard Rowntree".


Richard Rowntree  
Managing Director, Mortgages




Our ref: 202206003

Ask for: Michelle Morris

Our ref:

 01656 641152

Date: 28 March 2024

 Marilyn.Morgan@ombudsm  
an.wales

## PRIVATE & CONFIDENTIAL

Mr John Griffiths MS  
Senedd Member for Newport East  
7<sup>th</sup> Floor, Clarence House  
Clarence Place  
Newport  
NP19 7AA

**By e-mail only**  
[john.griffiths@senedd.wales](mailto:john.griffiths@senedd.wales)

Dear John,

I enclose a copy of an investigation report that I have issued in respect of a complaint against Welsh Government. The complaint, made by 2 members of the Gypsy and Traveller community, concerns the action taken by Welsh Government to ensure that local authorities are providing sufficient accommodation for Gypsies and Travellers. I am sending this to you in your capacity as Chair of the Local Government and Housing Committee as I reference the work of the Committee in my report and wanted to bring my findings and recommendations to the attention of yourself and the Committee. I do not propose to provide a hard copy version unless you wish to have one.

Please note that whilst it is our intention to make this report public, I will not do so until 4 April 2024. I would, therefore, ask that you to bear in mind that the report is issued under embargo until that date.

Please do not hesitate to contact me if you would wish to discuss the matter further.

Page 1 of 2

ombwdsmon.cymru  
holwch@ombwdsmon.cymru  
0300 790 0203  
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ  
Rydym yn hysbysu i'r pwyblydd yn as  
ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

Tudalen y pecyn 48

ombudsman.wales  
ask@ombudsman.wales  
0300 790 0203  
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ  
We are happy to accept and respond  
to correspondence in Welsh.

Yours sincerely

**Michelle Morris**  
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus/Public Services Ombudsman**

Enc. Public Interest Report



**Ombwdsmon  
Ombudsman**  
Cymru • Wales

Ymchwiliad i gŵyn  
yn erbyn  
Llywodraeth Cymru

Adroddiad gan yr  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cymru  
Achos: 202206003

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Cyflwyniad	1
Crynodeb	2
Y gŵyn	4
Ymchwiliad	4
Y digwyddiadau cefndir	8
Tystiolaeth Mr A a Mr B	14
Tystiolaeth Llywodraeth Cymru	15
Dadansoddiad a Chasgliadau	17
Argymhellion	24

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan a23 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddiennw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor. Mae'r adroddiad felly yn cyfeirio at yr achwynwyr fel Mr A a Mr B.

## Crynodeb

Cwynodd Mr A a Mr B fod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio ei phwerau i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014. Cwynodd Mr A a Mr B hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi methu â delio yn briodol â chwyn a wnaethant am y mater hwn.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddiwallu anghenion llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n ofynnol iddynt nodi ac asesu'r angen yn eu hardal a chyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Felly, mae gan Lywodraeth Cymru rôl arweiniol hollbwysig o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o ran darparu llety.

Canfu'r ymchwiliad fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflawni'r rôl hon a bod ei methiant i ymateb i Gynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi cyfyngu ar allu Conwy a Sir Ddinbych i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn wedi achosi rhwystredigaeth a gofid i Mr A a Mr B, y mae eu hanghenion llety yn dal heb eu diwallu. Hefyd, mae'n debygol bod eraill yn y gymuned wedi'u heffeithio, neu y gallent gael eu heffeithio, gan y methiant hwn.

Ni chafodd cwyn Mr A a Mr B ei thrin yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Roedd eu cwyn wedi'i hystyried yn anghywir fel un na ellid ei hystyried o dan y polisi. Roedd yr amser a gymerwyd i roi gwybod iddynt nad oedd eu cwyn yn cael ei hystyried yn ormodol.

Argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru ymddiheuro i Mr A a Mr B am y methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn a chynnig taliad o £1,000 yr un iddynt i gydnabod yr anghyfiawnder a achoswyd iddynt oherwydd y methiannau hyn. Argymhellais hefyd y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i awdurdodau lleol o'r gofyniad i barhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen mewn Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr cymeradwy tra bod Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr diweddaedig yn cael eu hasesu, i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ac i sefydlu cynllun ar gyfer sut y byddant yn adolygu'r broses o Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr a



threfniadau monitro. O ran ymdrin â chwynion, argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru atgoffa staff sy'n delio â chwynion o bwysigrwydd ymateb mewn modd amserol a sicrhau bod yr holl staff sy'n delio â chwynion yn cael hyfforddiant ar ei pholisi cwynion a sut y dylid ei gymhwyso. Cytunodd Llywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhellion hyn.

## Y gŵyn

1. Cwynodd Mr A a Mr B am y ffordd y deliodd Llywodraeth Cymru â chŵyn a wnaed ganddynt ynghylch Aseidiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr (“AauLST”). Ystyriodd yr ymchwiliad y canlynol:
  - a) A oedd Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio eu pwerau i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (“CBSC”) a Chyngor Sir Ddinbych (“CSD”) yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.
  - b) A gafodd eu cwyn ei thrin yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

## Ymchwiliad

2. Cafodd fy Ymchwilydd sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan Lywodraeth Cymru ac ystyriodd y rheini gyda'r dystiolaeth a ddarparodd Mr A a Mr B. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan CBSC a CSD.
3. Cafodd Mr A, Mr B a Llywodraeth Cymru gyfle i weld a rhoi sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Deddfwriaeth berthnasol

4. Mae [Egwyddorion Gweinyddu Da](#)’r Ombwdsmon, a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd,<sup>1</sup> yn darparu canllawiau i bob corff cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn.
  - Mae Egwyddor 1 yn ymwneud â “Chael pethau yn iawn” drwy weithredu yn unol â’r gyfraith, gan roi sylw dyledus i hawliau’r rhai dan sylw, a gwneud penderfyniadau rhesymol, ar sail yr holl ystyriaethau perthnasol.

---

<sup>1</sup>O dan adran 34 o Ddeddf OGCC 2019

- Egwyddor 2 yw “Canolbwyntio ar y cwsmer” drwy ddelio â phobl yn gymwynasgar, yn brydlon ac yn sensitif, gan ystyried eu hamgylchiadau unigol.
- Egwyddor 3 yw “Bod yn agored ac yn atebol” drwy fod yn agored ac yn glir am bolisiau a gweithdrefnau.

Rhaid i Gyrrff Cyhoeddus yng Nghymru roi sylw i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau.

5. Fel Awdurdod Safonau Cwynion Cymru, rwyf hefyd wedi cyhoeddi Egwyddorion ar gyfer Delio â Chwynion yn Effeithiol ar gyfer cyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn datgan y dylai prosesau ymdrin â chwynion ganolbwyntio ar yr achwynydd, dylent fod yn deg ac yn wrthrychol (gan sicrhau bod achwynwyr yn cael ymateb cyflawn a phriodol i'w pryderon), ac yn amserol, yn effeithiol ac yn atebol.
6. Mae Deddf Tai 1996 yn dweud bod Sipsiwn neu Deithiwr yn ddigartref os nad oes ganddynt le cyfreithlon lle gallant osod eu cartref symudol a byw ynddo. Ni fyddai gwrsylloedd diawdurdod, sydd heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir, yn cael eu hystyried yn lle cyfreithlon.
7. Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (“y Confensiwn”) yng nghyfraith y DU. Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn yn rhoi'r hawl i unigolion gael parch at eu bywyd preifat a theuluol.
8. Nid fy swyddogaeth yw gwneud canfyddiadau diffiniol ynghylch a yw corff cyhoeddus wedi torri hawliau dynol unigolyn trwy ei weithredoedd (neu ei ddiffyg gweithredu). Fodd bynnag, wrth ystyried a fu camweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus, gallaf ystyried a yw cyrrff cyhoeddus yn ystyried hawliau dynol pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau pan fo hyn yn ystyriaeth berthnasol. Yn unol â hynny, byddaf yn nodi pan fydd materion hawliau dynol yn cael eu cynnwys mewn achos a byddaf ac yn gwneud sylwadau pan fydd tystiolaeth nad yw corff cyhoeddus wedi rhoi digon o sylw iddynt.

9. Mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig ac yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (“y Ddeddf Cydraddoldeb”). Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi amddiffyniad cyffredinol rhag gwahaniaethu i bobl â nodweddion gwarchoddedig, megis eu tarddiad ethnig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, megis Llywodraeth Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i feithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Mae rhoi sylw dyledus yn golygu ystyried y 3 gofyniad hyn wrth lunio polisi neu ddarparu gwasanaethau.

10. Nid fy swyddogaeth yw gwneud canfyddiadau pendant ynghylch a oes gwahaniaethu wedi digwydd. Fodd bynnag, gallaf roi sylwadau ar ystyriaeth corff cyhoeddus o'r amddiffyniad y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei roi.

11. Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 (“y Ddeddf Tai”) ddyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio ALST a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae Adran 103 o'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei bwerau i ddiwallu unrhyw angen am lety a nodir yn ei ALST gymeradwy. Mae adran 104 o'r Ddeddf Tai yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau, os ydynt yn fodlon bod awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan adran 103 o'r Ddeddf Tai. Cychwynnwyd yr agweddau hyn ar y Ddeddf Tai ym mis Chwefror 2015, a rhoddwyd terfyn amser o 26 Chwefror 2016 i awdurdodau lleol gynnal AauLST a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

12. I gynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau o'r enw “Cynnal Aseadau O Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr” ym mis Mai 2015. Esboniodd bwysigrwydd cynnal AauLST i fynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac i sicrhau cyfle cyfartal i Sipsiwn a Theithwyr drwy ganiatáu iddynt gael mynediad i lety sy'n ddiwylliannol briodol. Darparodd fframwaith, yn gosod allan sut i gynnal AauLST, ac atgoffodd awdurdodau lleol o'u dyletswyddau cyfreithiol i ddiwallu unrhyw angen a nodwyd. Mae paragraff 255 yn dweud “bydd angen asesu'r cynnydd ar gwrdd ag anghenion a ddynodwyd yn rheolaidd... rhaid i Awdurdodau Lleol ddangos eu bod yn gwneud popeth rhesymol yn eu gallu i gwrdd ag anghenion. Dywedodd hefyd y dylid diweddarau AauLST o leiaf bob

5 mlynedd oherwydd ei bod yn anodd asesu'n gywir y newidiadau yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod o fwy na 5 mlynedd.

13. Yn dilyn cychwyn y Ddeddf Tai, datblygodd Llywodraeth Cymru dempled ar gyfer Adolygu Cydymffurfiaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol. Anfonwyd hwn at awdurdodau lleol, ac roedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r templed a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Roedd y templed yn dweud y "bydd gwybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ganfod a fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pŵer o dan adran 104 o Ddeddf 2014 i orfodi awdurdod lleol i ddarparu safleoedd."

14. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun o'r enw "Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr" ym mis Mehefin 2018. Ynndo, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i "graffu ar Aseidiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau eu bod yn gadarn" ac i "fonitro awdurdodau lleol yn flynyddol i sicrhau bod digon o fannau yn cael eu darparu". Nododd y cynllun fod Sipsiwn a Theithwyr yn un o'r grwpiau mwyaf ymylol mewn cymdeithas ac yn aml yn profi anghydraddoldeb. Dywedodd fod "llawer o'r materion a brofir gan Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn deillio o, neu'n cael eu gwaethygu gan, diffyg mynediad at lety priodol". Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo polisiau yn ymwneud â llety i Sipsiwn a Theithwyr.

15. Roedd "Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr" yn dilyn ymlaen o "Teithio at Ddyfodol Gwell", a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2011, a oedd yn dweud fod gan Sipsiwn a Theithwyr ymdeimlad cryf o deulu a bod bondiau teuluol yn gryf iawn. Dywedodd hefyd fod llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn grwpiau teulu ehangach i ddarparu gofal a chymorth i'w gilydd. Nododd yr heriau yr oedd Sipsiwn a Theithwyr, sy'n byw ar safleoedd anawdurdodedig, yn eu hwynebu o ran cael mynediad at wasanaethau hanfodol a'r effaith andwyol a gafodd hyn ar iechyd a lles.

16. Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd adroddiad o'r enw "Darparu safleoedd ar gyfer Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr". Dywedodd, er bod gan Gymru fframwaith clir ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle'r oedd eu hangen, dim ond ychydig iawn o gynnydd a wnaed.

Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y fframwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol er mwyn cyflawni newid ystyrlon gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn. Mewn adran o'r enw "Pryd i ddefnyddio'r weithdrefn hon" mae'r canllawiau'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried cwynion am faterion gan gynnwys "Camweinyddu yn ein gweithredoedd gweinyddol, boed hynny drwy weinyddiaeth wael neu drwy gymhwyso rheolau'n anghywir... drwy fethu â darparu gwasanaeth yr oeddem yn bwriadu ei ddarparu neu y mae'n rhaid i ni ei ddarparu yn ôl y gyfraith".

18. Mae'r canllawiau hefyd yn rhannu'r broses gwyno yn ddau gam:

- Cam 1 yw datrysiad anffurfiol. Mae cwynion o dan y cam hwn fel arfer yn cael eu hystyried a'u datrys yn gyflym ac, os yn bosibl, o fewn 10 diwrnod gwaith o gael eu codi. Os yw achwynydd yn anfodlon ar ôl cael ymateb yng ngham 1, gall ofyn i'w gŵyn gael ei hadolygu o dan gam 2 o'r broses.
- Cam 2 yw datrysiad trwy ymchwiliad ffurfiol. O dan y cam hwn, mae cwynion yn cael eu cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith. Mae achwynwyr yn cael cyngor am y broses a sut mae eu cwyn yn cael ei thrin. Bydd swyddog arweiniol yn cael ei benodi i ystyried y gŵyn a bydd ymateb llawn yn cael ei roi o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. Os nad yw hyn yn bosibl mae'r canllawiau'n nodi efallai y bydd angen ymestyn y llinell amser hon ond y bydd yr achwynydd yn cael y newyddion diweddaraf.

## Y digwyddiadau cefndir

19. O'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae'n ymddangos bod yr adolygiad cyntaf o gydymffurfiaeth awdurdodau lleol â chanlyniadau eu AauLST wedi'i gynnal yn hydref 2017, ond ni ddefnyddiwyd templed ffurfiol. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb, gan ddefnyddio'r templed ar gyfer adolygu cydymffurfiaeth, i'r ail adolygiad blynyddol erbyn 10 Mai 2018 a'r trydydd erbyn 6 Ionawr 2020. Gohiriwyd y pedwerydd adolygiad blynyddol, a oedd i fod i gyhwyn ym mis Rhagfyr 2020, tan flwyddyn ariannol 2021/22. O'r

dystiolaeth a ddarparwyd nid yw'n ymddangos bod hyn, nac unrhyw adolygiadau blynyddol pellach, wedi'u cynnal.

20. Unwaith y bydd ALST wedi'i gymeradwyo mae'r awdurdod lleol yn derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhoi gwybod ei bod yn ofynnol iddo gyhoeddi'r ALST cymeradwy a dechrau ar y gwaith o ddiwallu unrhyw angen nas diwallwyd a nodwyd. Mae'r llythyr hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud tuag at ddiwallu'r angen am lety a nodwyd yn yr ALST. Gan fod y ddau awdurdod lleol wedi nodi angen nas diwallwyd, roedd adran 103 o'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau i ddiwallu'r angen hwnnw.

### **Cyflwyniadau ALST Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i Lywodraeth Cymru**

21. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru ALST CBSC ar 28 Mawrth **2017**. Roedd cyfweiliadau â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd yn hwyr yn 2015 yn rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer yr ALST a ganfu fod angen cyfredol am 5 o leiniau preswyl (tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartref symudol am gyfnod amhenodol). Ar adeg cwblhau'r ALST, roedd gwaith bron wedi'i gwblhau ar safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr (safle parhaol a ddynodwyd i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol) yn ardal CBSC. Byddai hyn yn darparu 4 llain, gan adael angen nas diwallwyd o 1 llain. Nodwyd yn yr ALST bod yr angen hwn yn deillio o aelodau o deuluoedd yr aelwydydd a oedd ar fin symud i'r safle preswyl newydd a oedd yn dymuno ymuno â nhw. Aeth yr ALST ymlaen i ddatgan y byddai'n heriol darparu llain arall ar y safle hwn oherwydd y diffyg tir a oedd ar gael ac oherwydd na fyddai, efallai, yn cynrychioli gwerth am arian, ac y byddai'n ceisio cyngor pellach gan Lywodraeth Cymru. Canfu'r ALST hefyd angen nas diwallwyd am 7 o leiniau tramwy (tir ar safle cartref symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod dros dro) i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr sy'n teithio drwy'r ardal.

22. Ar 18 Medi anfonodd Rheolwr Gwasanaethau Tai CBSC e-bost at Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Dywedasant fod yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ddiwallu'r angen am leiniau tramwy a'u bod yn rhagweld cyflwyno cais cynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. O ran yr angen

am 1 llain breswyl arall, dywedasant nad oedd wedi gwneud cynnydd â chynllun i ddiwallu'r angen a gofynnodd am farn gan Lywodraeth Cymru ar sut i symud ymlaen. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r e-bost hwn.

23. Ym mis Mai **2018** cyflwynodd CBSC ei ail adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth i Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn nodi bod CBSC wedi darparu safle i ddiwallu'r angen preswyl a nodwyd yn y ALST. Dyma'r safle a oedd bron wedi'i gwblhau ar adeg cynnal yr ALST. Dywedodd hefyd y byddai grŵp llywio yn cael ei sefydlu i ddarparu safle tramwy. Ar 29 Tachwedd ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at CBSC i gadarnhau ei bod wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod yr angen a nodwyd yn yr ALST yn cael ei ddiwallu. Roedd hyn er bod gan CBSC ond gynlluniau i ddarparu 4 o leiniau preswyl, pan oedd angen wedi'i asesu am 5.

24. Dywedodd trydydd adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth a gyflwynwyd gan CBSC ym mis Ionawr **2019** eto fod yr angen preswyl a nodwyd yn yr ALST wedi'i ddiwallu drwy ddarparu safle preswyl gyda 4 llain. Dywedodd fod lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer safle tramwy wedi'i nodi ac y byddai'n destun ymgynghoriad trwy broses y Cynllun Datblygu Lleol. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r cyflwyniad hwn.

25. Ar 23 Chwefror **2022** cyflwynodd CBSC ALST diweddaredig i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Cydnabu Llywodraeth Cymru hyn ar 10 Mawrth ac nid yw wedi'i gymeradwyo eto. Canfu'r ALST hwn fod angen nas diwallwyd o hyd, sef ar gyfer 1 llain breswyl, a dim angen am leiniau tramwy. Mewn ymateb i'r ymchwiliad hwn, dywedodd CBSC na allant wneud cynnydd ag unrhyw waith ar ddiwallu angen nas diwallwyd hyd nes y bydd yr ALST diweddaredig yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

### **Cyflwyniadau ALST Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru**

26. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru hefyd ALST CSD ar 28 Mawrth **2017**. Roedd yr ALST hwn hefyd yn defnyddio cyfweliadau a gynhaliwyd gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ar ddiwedd 2015 fel rhan o'i sylfaen dystiolaeth. Canfu'r ALST fod angen 6 llain breswyl a



5 llain tramwy. Dywedodd yr ALST y dylid darparu'r lleiniau preswyl fel blaenoriaeth ac y byddai ymchwiliad am dir addas yn dechrau.

27. Ar 5 Medi anfonodd Rheolwr Prosiect o CSD e-bost at y Tîm Cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru. Dywedasant fod tîm prosiect wedi'i sefydlu i ddiwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST a'u bod yn rhagweld cyflwyno ceisiadau am gyllid i adeiladu safleoedd ym mlwyddyn ariannol 2019/20.

28. Roedd yr ail adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth yn manylu ar y gwaith a oedd wedi'i wneud i nodi tir ar gyfer lleiniau preswyl a thramwy, a dywedodd fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi i fwrw ymlaen i'r cam cais cynllunio. Ym mis Tachwedd **2018**, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod CSD wedi rhoi digon o dystiolaeth bod cynnydd yn cael ei wneud i ddiwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST.

29. Dywedodd y trydydd adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth a gyflwynwyd gan CSD fod cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer safle preswyl ym mis Hydref **2019**. O ran safle tramwy, dywedodd nad oedd unrhyw opsiwn ymarferol ar hyn o bryd ac y byddai cynnydd yn cael ei wneud gyda safleoedd posibl drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r trydydd adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth ar 29 Ionawr **2021**. Dywedodd ei fod yn bryderus nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos sut y byddai CSD yn diwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST ac efallai nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Tai. Roedd hyn oherwydd bod Pwyllgor Cynllunio CSD wedi gwrthod y cais i ddarparu safle preswyl ac nid oedd CSD ers hynny wedi darparu diweddariad a oedd yn gosod allan sut yr oedd yn bwriadu diwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST.

30. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr o CSD ar 27 Ebrill. Nodwyd bod yr angen hwnnw o ALST 2017 yn parhau i fod heb ei fodloni. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn pryderu am y diffyg cynnydd o ran diwallu anghenion, ac na fyddai'r camau gweithredu a gynigir gan CSD yn mynd â nhw'n nes at ddiwallu'r angen. Daeth y cyfarfod i ben gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn dweud y byddant yn ystyried y defnydd posib o adran 104 o'r Ddeddf Tai i gyfarwyddo CSD i ddiwallu'r angen. Anfonodd swyddog o CSD e-bost at Lywodraeth Cymru ar 26 Mai gyda sylwadau a diwygiadau i gofnodion y cyfarfod a chais i gyfarfod eto

ymhen ychydig wythnosau. Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r e-bost hwn ac ni dderbyniodd CSD unrhyw ohebiaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch y camau a oedd yn cael eu cymryd i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr.

31. Ar 24 Rhagfyr cyflwynodd CSD ALST diweddaredig i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Canfu'r ALST hwn fod angen nas diwallwyd am 12 o leiniau preswyl a dim angen am leiniau tramwy. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau ar yr ALST hwn eto.

32. Dywedodd CSD ei fod wedi'i siomi gan y diffyg adborth gan Lywodraeth Cymru ar ei ALST diweddaredig, yn enwedig gan ei bod wedi cadw at ddyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno. Ar ôl cyflwyno'r ALST diweddaredig, cysylltodd teulu nad oedd wedi cymryd rhan yn yr ALST â Chyngor Sir Ddinbych yn gofyn am gael eu cynnwys. Penderfynodd CSD y dylid cynnwys y teulu hwn yn yr ALST, ac y dylid ail-gyfweld cyfranogwyr blaenorol i sicrhau bod yr ALST mor gyfredol â phosibl. Dywedodd CSD fod y diffyg adborth gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad oedd modd mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd pan gynhaliwyd y diweddariad hwn ar ôl i'r teulu ychwanegol ddod ymlaen.

### **Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

33. Ar 5 Hydref **2023**, rhoddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor"). Roeddent yn cydnabod y bu'r cynnydd wrth adolygu AauLST gan Lywodraeth Cymru yn araf, i ddechrau oherwydd y pandemig COVID-19 ac yn fwy diweddar oherwydd cyfyngiadau difrifol gyda staffio. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod staff ychwanegol wedi'u recriwtio i'r tîm sy'n gyfrifol am adolygu AauLST a'i fod yn bwriadu adolygu'r holl AauLST a gyflwynwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd disgwyl i'r AauLST diweddaredig gael eu cyflwyno erbyn 24 Chwefror 2022 ac, ar adeg cyfarfod y pwyllgor, roedd 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyflwyno AauLST diweddaredig i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn mynegi pryder y Pwyllgor nad oedd 1 awdurdod lleol wedi cyflwyno ALST eto a bod y broses adolygu ar gyfer yr AauLST eraill yn dal yn parhau.

34. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi lansio ymchwiliad i'r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cyhoeddwyd adroddiad yn deillio o'r ymchwiliad hwnnw ym mis Awst 2022. O ran AauLST, canfuwyd bod gwerth ac effeithiolrwydd AauLST yn amrywio ledled Cymru ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses ALST bresennol yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Argymhellodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i liniaru'r heriau y gall hyn eu cyflwyno. Darparodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ymateb ysgrifenedig i'r ymchwiliad i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2022. Yn yr ymateb hwnnw, dywedodd y byddai effeithiolrwydd y broses ALST yn cael ei adolygu ar ôl i'r rownd ALST bresennol ddod i ben, ac y byddai'r AauLST a oedd wedi'u cyflwyno bryd hynny yn cael eu defnyddio i ddatblygu darlun cenedlaethol o'r angen am, a'r ddarpariaeth o, lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

### **Cwyn i Lywodraeth Cymru**

35. Cyflwynodd Mr A gŵyn drwy borth cwynion Llywodraeth Cymru ar 9 Medi 2022, a gafodd ei chydabod ar 15 Medi. Yn y gŵyn honno, dywedodd Mr A ei fod yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chymryd camau i sicrhau bod CBSC yn diwallu'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn ei ALST yn 2017. Ehangwyd y gŵyn honno wedyn i gynnwys cwyn Mr B am CSD. Mae Mr A yn byw ar safle preswyl yn CBSC ac mae Mr B yn byw ar safle anawdurdodedig (tir a feddiannir heb y caniatâd cynllunio cywir ar gyfer defnydd tir) yn CSD.

36. Ar 20 Medi derbyniodd Mr A e-bost oddi wrth un o swyddogion Llywodraeth Cymru ("y Swyddog") a oedd wedi cael y dasg o roi ymateb iddo. Pwnc yr e-bost oedd "cwyn". Gofynnwyd i Mr A gyfeirio pob gohebiaeth bellach at y Swyddog. Ar 6 Hydref derbyniodd Mr A e-bost pellach gan y Swyddog. "Cwyn" oedd pwnc yr e-bost, a dywedwyd wrth Mr A eu bod yn delio â'i gŵyn. Dywedodd y Swyddog eu bod yn gobeithio gallu ymateb yn fuan ond ni roddwyd amserlen ar gyfer pryd y gallai Mr A ddisgwyl ymateb o sylwedd.

37. Ar 24 Hydref, aeth Mr A at asiantaeth eirioli (“yr Asiantaeth Eirioli”) am gymorth gan nad oedd wedi cael ymateb i’w gŵyn eto. Anfonodd yr Asiantaeth Eirioli e-bost at Dîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru ar 25 Hydref, gan gopïo Mr A. Mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion yn rhan o Lywodraeth Cymru ac maent yn delio â chwynion a wneir am Lywodraeth Cymru. Gofynnodd yr Asiantaeth Eirioli ar ba gam oedd cwyn Mr A, a phryd y gallai ddisgwyl ymateb. Ar 27 Hydref atebodd y Tîm Cynghori ar Gwynion yn dweud fod y Swyddog wedi cysylltu â Mr A, a bod Mr A yn ymwybodol o’r sefyllfa bresennol.

38. Ar 31 Hydref ymatebodd yr Asiantaeth Eirioli i’r e-bost hwn, gan gopïo Mr A. Roeddent yn cydnabod bod y Swyddog wedi bod mewn cysylltiad â Mr A ond dywedasant nad oedd Mr A yn gwybod o hyd ar ba gam yr oedd ei gŵyn na phryd y byddai’n cael ymateb. Ar ôl cael dim ymateb i’r e-bost hwn, anfonodd yr Asiantaeth Eirioli e-bost arall at y Tîm Cynghori ar Gwynion ar 17 Tachwedd.

39. Ymatebodd y Tîm Cynghori ar Gwynion ar 22 Tachwedd. Dywedasant nad oeddent yn gallu rhannu gwybodaeth â’r Asiantaeth Eirioli heb ganiatâd ysgrifenedig Mr A. Darparodd Mr A hynny drwy e-bost yr un diwrnod. Anfonodd y Tîm Cynghori ar Gwynion e-bost at yr Asiantaeth Eirioli a Mr A ar 29 Tachwedd. Dywedodd nad oeddent yn gallu ystyried cwyn Mr A gan fod y polisi cwynion ond yn caniatáu iddynt ystyried cwynion am gamweinyddu, nid cwynion am bolisi’r Llywodraeth neu newid deddfwriaeth. Atebodd Mr A yr e-bost hwn yr un diwrnod gan ddweud nad oedd yn ceisio newid polisi neu ddeddfwriaeth ond ei fod yn cwyno nad oedd pwerau presennol yn cael eu defnyddio. Wedi hynny, gwnaeth Mr A gŵyn i’r swyddfa hon ym mis Rhagfyr.

40. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Mr A a Mr B ym mis Rhagfyr. Pwrpas y cyfarfod oedd egluro blaenoriaethau a'r ffordd ymlaen. Ni wnaed unrhyw nodiadau o’r cyfarfod hwn, er, ar 29 Rhagfyr, anfonodd y Swyddog e-bost at Mr A a diolchodd iddo am roi o’i amser i gyfarfod. Dywedodd wrth Mr A fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio edrych ar bob agwedd ar y broblem yn fuan iawn. Atebodd Mr A yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw gan godi nifer o faterion a gofyn a fyddai’n cael ymateb ffurfiol i’w gŵyn. Ymatebodd y Swyddog i’r e-bost hwnnw drannoeth a

dywedodd y byddai ymateb ffurfiol yn dilyn, ond ni roddwyd dyddiad ar gyfer hyn.

## **Tystiolaeth Mr A a Mr B**

41. Dywedodd Mr A ei fod yn teimlo bod y ffordd y deliodd Llywodraeth Cymru â'i gŵyn yn hynod o rwystredig, ac y bu arno angen cymorth gan asiantaeth eirioli i'w gynorthwyo yn ei ymwneud â Llywodraeth Cymru. Holodd Mr A a oedd ei ethnigrwydd wedi dylanwadu ar y ffordd y deliwyd â'i gŵyn, gan ddweud bod y methiant i ymdrin â'i gŵyn yn briodol yn rhan o ddiffyg gweithredu ehangach gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

42. Dywedodd Mr A fod y llain breswyl y nodwyd bod ei hangen yn ALST 2017 CBSC ar gyfer ei ferch, a oedd yn ddigartref ar hyn o bryd ynghyd â'i phlant ei hun, ac nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran darparu'r llain hon. Dywedodd Mr A fod y sefyllfa hon yn ofidus iawn iddo gan fod gan ei wyrion broblemau iechyd difrifol a oedd yn cael eu gwaethygu drwy fod yn ddigartref. Dywedodd Mr A fod methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau i sicrhau bod CBSC yn diwallu angen a nodwyd yn golygu nad oeddent yn gallu byw gyda'i gilydd ar yr un safle â theulu estynedig a darparu cymorth i'w gilydd.

43. Gan nad oes unrhyw leiniau awdurdodedig yn ardal CSD, dywedodd Mr B ei fod ef a'i deulu yn ddigartref ac yn byw ar safleoedd anawdurdodedig a dros dro. Nid oes gan y safleoedd hyn gyflenwad dŵr na thrydan a chan eu bod yn anawdurdodedig a heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir, roeddent mewn ofn parhaus o gael eu troi allan. Roeddent yn gweld y sefyllfa'n arbennig o anodd gan fod y teulu'n cynnwys plant a phobl ag anghenion meddygol.

44. Dywedodd Mr A a Mr B, pan ddaeth y Ddeddf Tai i rym, eu bod yn obeithiol y byddai mwy o lety i Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Dywedasant eu bod yn gweld y diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod safleoedd yn cael eu darparu yn siomedig iawn.

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

45. Dywedodd Llywodraeth Cymru na chafodd cwyn Mr A ei hystyried o dan ei pholisi cwynion. Roedd yn credu bod y gŵyn yn ymwneud â pholisi neu ddeddfwriaeth y llywodraeth, na all ei hystyried o dan ei pholisi cwynion. Dywedasant fod trefniadau wedi'u gwneud i gwrdd â Mr A a Mr B ym mis Rhagfyr 2022 i ddeall natur eu cwyn a'r rhesymau drosti. Dywedasant fod Mr A, yn dilyn y cyfarfod hwn, yn fodlon i'r materion a godwyd gael eu trin o safbwynt polisi yn hytrach nag fel cwyn. Gan na chymerwyd cofnodion o'r cyfarfod hwn, nid yw hyn wedi'i ddogfennu.

46. Dywedodd Llywodraeth Cymru i ddechrau nad oedd yn gallu dod o hyd i unrhyw ohebiaeth rhyngddynt a'r 2 awdurdod lleol ynghylch yr AauLST mabwysiedig. Yn dilyn ymholiadau pellach gan y swyddfa hon, rhannodd Llywodraeth Cymru rai dogfennau perthnasol. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y tîm sy'n gyfrifol am adolygu AauLST cymeradwy wedi dioddef colled sylweddol o staff, a gafodd effaith negyddol ar gof corfforaethol a gwydnwch y tîm.

47. Mewn ymateb i fersiwn ddrafft o'r adroddiad hwn, derbyniodd Llywodraeth Cymru y bu methiannau wrth fonitro'r cynnydd yr oedd awdurdodau lleol yn ei wneud i ddiwallu'r angen a nodwyd yn eu AauLST. Nododd ei hymrwymiad i gefnogi teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y maent yn eu profi. Roedd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau sylweddol. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol gymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd, ac nid oedd y diffyg monitro gan Lywodraeth Cymru yn dirymu'r ddyletswydd hon. Dywedodd nad oedd dim tystiolaeth y byddai monitro mwy trylwyr gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at ganlyniad gwahanol i'r achwynwyr.

48. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i ddiwallu anghenion a nodwyd mewn AauLST cymeradwy. Dywedodd fod penderfyniadau ynghylch sut i ddiwallu'r angen hwnnw yn faterion i awdurdodau lleol yn unig. Dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai unrhyw fethiant i ymateb i ohebiaeth gan awdurdodau lleol ynghylch hyn wedi atal yr awdurdodau rhag cymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd. Mynegodd Llywodraeth Cymru bryder y gall fy nghanfyddiadau arwain

awdurdodau lleol i ystyried nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb i ddiwallu eu dyletswyddau o dan Adran 103 yn yr amser rhwng cyflwyno a chymeradwyo ALST diweddaredig.

49. Cydnabu Llywodraeth Cymru y bu oedi wrth asesu'r AauLST diweddaredig ond dywedodd nad oedd unrhyw gysylltiad achosol rhwng ei fethiannau fel y nodir yn yr adroddiad hwn, a methiant CBSC a CSD i gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol i ddiwallu anghenion tai Mr A a Mr B. Roedd hyn oherwydd bod CBSC a CSD wedi mabwysiadu'r AauLST a oedd ar waith a bod yr AauLST hynny yn parhau'n ddilys nes i ALST diweddaredig gael ei gymeradwyo. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd, o ganlyniad, yn ystyried bod yr oedi cyn cymeradwyo'r AauLST diweddaredig wedi achosi anghyfiawnder i'r achwynwyr.

50. O ran CSD, cydnabu Llywodraeth Cymru nad oedd cyngor wedi'i roi i'r Gweinidog ynghylch defnyddio pwerau adran 104. Dywedodd hyd yn oed pe bai cyngor wedi'i roi ei bod yn annhebygol iawn y byddai wedi bod yn briodol defnyddio'r pwerau hynny. Fel y cyfryw, ym marn Llywodraeth Cymru, ni wnaeth y methiant hwn achosi anghyfiawnder i Mr B.

## **Dadansoddiad a Chasgliadau**

51. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn, ond rwy'n fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

**Pryder Mr A a Mr B fod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio eu pwerau i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.**

52. Mae'n bwysig dweud ar y cychwyn, mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol (CBSC a CSD), nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, yw'r ddyletswydd o dan y Ddeddf Tai i ddiwallu'r anghenion a nodwyd mewn AauLST. Fodd bynnag, mae'r fframwaith deddfwriaethol yn golygu bod gan Weinidogion Cymru rôl hollbwysig wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r AauLST hynny ac wrth fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol ag anghenion a aseswyd yn flaenorol. Tynnodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai sylw hefyd at bwysigrwydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd

i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Fel y cyfryw, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig o ran arweinyddiaeth a throsolwg. Hefyd, yn unol â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw i Ganllawiau fy Swyddfa ar Egwyddorion Gweinyddu Da wrth gyflawni ei swyddogaethau.

53. Ni ddigwyddodd pedwerydd adolygiad blynyddol Llywodraeth Cymru o gydymffurfiaeth, a oedd i fod i gael ei gynnal ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Cynhaliwyd y monitro diwethaf a gofnodwyd o gydymffurfiaeth awdurdodau lleol â chanlyniadau eu AauLST ym mis Ionawr 2020. Mae hyn yn groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn "Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr" y byddai monitro blynyddol yn digwydd. Er fy mod yn derbyn bod pandemig COVID-19 a phrinder staff wedi achosi oedi, gan fod 4 blynedd wedi mynd heibio, mae'r oedi hwn yn ormodol ac, yn fy marn i, yn gyfystyr â chamweinyddu.

54. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i geisiadau gan CBSC am gymorth i ddiwallu'r angen am lain breswyl. Roedd CBSC yn glir yn ei ALST cymeradwy ac mewn e-bost i Lywodraeth Cymru ei fod yn wynebu anawsterau wrth fynd i'r afael â'i angen nas diwallwyd am lain breswyl. Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cydnabod yr ohebiaeth hon ac ymateb iddi. Mater i Lywodraeth Cymru oedd penderfynu a oedd yn dymuno cynorthwyo'r Cyngor mewn unrhyw ffordd. Roedd y methiant i ymateb i'r ohebiaeth hon i roi ateb i CBSC mewn perthynas â'i gais yn fethiant gweinyddol sy'n gyfystyr â chamweinyddu.

55. Nid wyf ychwaith wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i drydydd datganiad o gydymffurfiaeth flynyddol CBSC. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i nodi nad oedd y 4 llain breswyl a ddarparwyd gan CBSC yn ddigon i ddiwallu'r angen am 5 llain a nodwyd yn ei ALST. Yn dilyn hynny, cyflwynodd CBSC ALST diweddaredig bron i 5 mlynedd ar ôl cymeradwyo'r ALST cyntaf, a oedd yn dal i ddangos angen nas diwallwyd am 1 llain breswyl. Roedd y methiant i nodi'r diffyg hwn ac ymateb i'r Cyngor unwaith eto yn fethiant sy'n gyfystyr â chamweinyddu.

56. Mae CBSC wedi dweud nad yw'n gallu cymryd camau ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r angen nas diwallwyd a nodwyd yn yr ALST diweddaredig gan nad yw wedi'i gymeradwyo eto gan Lywodraeth Cymru er iddo gael ei



gyflwyno dwy flynedd yn ôl ym mis Chwefror 2022. Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai CBSC fod yn parhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen am lety a nodwyd yn ALST 2017 tra'i fod yn aros am gymeradwyaeth i'r ALST diwedddareidig. Cafodd CBSC wybod yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fod ei gynlluniau i ddarparu safle preswyl gyda 4 llain yn ddigon o dystiolaeth bod yr angen a nodwyd yn ALST 2017 yn cael ei ddiwallu. Gan na chafwyd unrhyw gyfarwyddyd arall gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yn afresymol i'r awdurdod lleol ddod i'r casgliad ei fod wedi arfer ei bwerau cyn belled ag yr oedd angen, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

57. Felly, er mai CBSC oedd yn gyfrifol am y ddyletswydd i ddiwallu anghenion nas diwallwyd yn ei ALST cymeradwy, achosodd y methiannau gweinyddol ar ran Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â gohebiaeth CBSC ac ymateb iddi, oedi a chyfyngder. O ystyried na ymatebodd yn glir i CBSC ac esbonio ei safbwynt, achosodd y camweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru anghyfiawnder anuniongyrchol i Mr A.

58. Dywedodd Mr A ei fod yn siomedig nad oedd yn ymddangos bod unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran diwallu'r angen nas diwallwyd a nodwyd yn ALST 2017. Dywedodd Mr A fod angen y llain ar gyfer ei ferch a'i phlant dibynnol ac yn ei ALST, cydnabu CBSC fod yr angen yn deillio o aelodau o deulu'r bobl a oedd yn byw ar ei safle preswyl awdurdodedig. Dywedodd Mr A fod ei ferch yn ddigartref, ynghyd â'i wyrion, gan nad oedd unrhyw leiniau ar gael yn ardal CBSC. Er nad oes unrhyw sicrwydd y byddai'r llain hon wedi'i dyrannu i aelod o deulu Mr A, roedd y ffaith na chafodd erioed ei darparu yn golygu nad allant wneud cais amdano, ac nid oedd Mr A yn gallu cael y cyfle i fyw gydag aelodau o'i deulu ehangach. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gydnabod yn flaenorol yn "Teithio at Ddyfodol Gwell" fel rhan bwysig o ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr.

59. Yn dilyn y cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a CSD ym mis Ebrill 2021, ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw gysylltiad pellach â CSD ynghylch y defnydd posibl o'i bwerau o dan adran 104 o'r Ddeddf Tai i gyfarwyddo CSD i gynnig lleiniau. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw dystiolaeth bod y defnydd o'r pwerau hyn wedi'i ystyried ymhellach ar ôl y cyfarfod. Mae hyn er gwaethaf pryderon gan swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd gan Gyngor Sir Ddinbych gynllun i ddiwallu'r angen a nodwyd, yn groes i adran 103 o'r Ddeddf Tai. Er mai mater i

Lywodraeth Cymru unwaith eto oedd penderfynu a ddylai arfer ei phwerau, roedd ei diffyg gweithredu ar ôl y cyfarfod hwnnw i fynd ar drywydd y mater a chadarnhau ei safbwynt i CSD yn fethiant gweinyddol sy'n gyfystyr â chamweinyddu.

60. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi bod CSD yn methu, o bosibl, â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Tai, ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â hyn. Mewn ymateb i ddrafft o'r adroddiad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn annhebygol y byddai wedi bod yn briodol defnyddio pwerau adran 104. Efallai fod hynny fod yn wir neu beidio. Fodd bynnag, mynegodd i CSD ei fod yn ystyried defnyddio pŵer a104 ac anfonodd CSD e-bost at Lywodraeth Cymru, gyda sylwadau ar gofnodion ei gyfarfod pan drafodwyd hyn, gyda chais i gyfarfod eto, ond ni chafodd CSD unrhyw ymateb gan Lywodraeth Cymru. Er mai CSD oedd yn gyfrifol am y ddyletswydd gyfreithiol i ddiwallu angen nas diwallwyd yn yr ALST cymeradwy, nid oedd yn afresymol bod CSD yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru. Roedd y diffyg ymateb neu gadarnhad o fwriadau Llywodraeth Cymru yn amlwg yn effeithio ar CSD a chyfrannodd at oedi a diffyg gweithredu. Roedd y methiant hwn yn gyfystyr â chamweinyddu.

61. Nid yw CSD wedi darparu unrhyw lety i Sipsiwn a Theithwyr am bron i 7 mlynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo ALST CSD, mae Mr B a'i deulu yn ddigartref o hyd. Er na allwn wybod yn sicr a fyddai CSD wedi diwallu'r angen a nodwyd yn y ALST neu a fyddai Mr B a'i deulu wedi cael lleiniau ar safle, pe bai un wedi'i adeiladu, efallai y byddai'r cyfyngder presennol wedi'i osgoi pe na bai'r methiannau ar ran Llywodraeth Cymru wedi digwydd. Er mai CSD sy'n gyfrifol am ddiwallu'r anghenion llety a aseswyd, rwyf o'r farn bod methiannau Llywodraeth Cymru wedi effeithio'n anuniongyrchol ar safbwynt Mr B, gan achosi anghyfiawnder a gofid iddo.

62. Dewisodd CSD adolygu ei ALST diwedddaredig ar ôl iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau ar yr ALST cyn y pwynt hwn, gellid bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn y diwedddariad hwn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn nodi unrhyw broblemau gyda'r ALST newydd hwn, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid i CSD gomisiynu diwedddariad ychwanegol i'r ALST

diweddaraf. Bydd hyn yn achosi oedi pellach i unrhyw waith y gallai CSD ei wneud i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd. Mae hyn yn anghyfiawnder i Mr B a'i deulu y mae eu hanghenion llety yn parhau heb eu diwallu.

63. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol wedi dweud bod AauLST a gyflwynwyd wrthi yn cael eu hadolygu. Er bod hyn yn cael ei groesawu, bydd unrhyw oedi yn atal ymhellach unrhyw gamau y gallai'r awdurdodau lleol eu cymryd i ddiwallu'r angen a nodwyd, gan nad yw dyletswydd yr awdurdodau lleol, i ddiwallu'r anghenion a aseswyd o dan adran 103 o'r Ddeddf Tai, yn dod i rym nes bod ALST wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylai awdurdodau lleol, pan fyddant yn aros i ALST diweddaredig gael ei gymeradwyo, barhau i ymgymryd â'r gwaith i ddiwallu'r angen a nodwyd yn ei ALST cymeradwy presennol yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol.

64. Yn achos CBSC a CSD, byddai hyn yn golygu cymryd camau i ddiwallu angen nas diwallwyd yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd dros 8 mlynedd yn ôl. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal AauLST yn dweud ei bod yn anodd asesu'n gywir yr angen am lety Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod o fwy na 5 mlynedd. Fel y cyfryw, mae'n bosibl na fydd y ALST presennol yn adlewyrchu'n gywir yr angen presennol am lety Sipsiwn a Theithwyr. Yn achos CSD, mae'r angen am leiniau preswyl yn ei ALST diweddaredig wedi cynyddu'n sylweddol ers cymeradwyo ALST 2017. Pe bai awdurdodau lleol yn parhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen mewn AauLST cymeradwy, ni fyddai hyn yn mynd i'r afael ag unrhyw angen newydd a oedd wedi digwydd ers cymeradwyo AauLST 2017.

65. Os mai barn Llywodraeth Cymru yw y dylai awdurdodau lleol barhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn AauLST blaenorol wrth aros i AauLST diweddaredig gael eu hasesu, dylid mynegi hyn yn glir i'r awdurdodau lleol. Mae'r ymchwiliad hwn wedi canfod nad yw awdurdodau lleol o bosibl yn deall y sefyllfa hon. Nid yw ychwaith wedi'i gynnwys yn y canllawiau presennol ar gynnal AauLST a gyhoeddwyd yn 2015, sydd ond yn datgan y dylid adolygu AauLST o leiaf bob pum mlynedd.

66. Mae'r oedi a'r diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r ddau awdurdod lleol wedi arwain at y diffyg cynnydd ac wedi cyfyngu ar eu

gallu i wneud cynnydd ar yr angen dybryd am safleoedd ychwanegol. Yn achos CSD nid oes dim safleoedd newydd wedi'u darparu ac nid oedd y safle a ddarparwyd gan CBSC yn ddigon i ddiwallu'r angen a nodwyd yn ei ALST. Mae'r angen i Lywodraeth Cymru weithio ag awdurdodau lleol i gyflawni newid ystyrlon ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru wedi'i amlygu gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

67. Mewn ymateb i'r ymchwiliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw'n credu bod perthynas achosol rhwng y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn a methiannau awdurdodau lleol i ddiwallu'r angen a nodwyd yn eu AauLST. Er bod gofyn cyfreithiol i awdurdodau lleol gymryd camau i ddiwallu angen a nodwyd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn gweinyddu ei swyddogaeth yn y broses gymeradwyo ALST yn briodol a'i bod yn cyfathrebu'n glir ac yn brydlon ag awdurdodau lleol – mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi sefyllfa o ailadrodd y methiannau yn yr achosion hyn.

68. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn glir i CBCB a CSD yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a weithredwyd ganddo, cyfrannodd ei fethiannau at yr oedi a'r diffyg gweithredu ar ran y ddau awdurdod lleol. Os yw'n disgwyl i awdurdodau lleol weithredu AauLST a gymeradwywyd yn flaenorol (waeth pa mor bell yn ôl y cawsant eu cymeradwyo) wrth i AauLST newydd yn cael eu hystyried, mae angen iddo sicrhau ei fod yn cyfleu hyn ac yn gwneud hyn yn glir i awdurdodau lleol yn ystod ei ymgysylltiad â nhw.

69. Mae'r diffyg safleoedd sydd ar gael yn peri rhwystredigaeth fawr i Mr A a Mr B. Mae wedi arwain at gyfnod hir o ddigartrefedd i Mr B a'i deulu ac mae wedi golygu na allai Mr A gynnig cymorth i'w ferch a'i wyrion. Er bod y cwynion yr wyf wedi'u hystyried wedi'u gwneud gan 2 unigolyn, mae eraill yn debygol o fod wedi'u heffeithio, neu o bosibl wedi'u heffeithio, mewn ffordd debyg.

70. Mae'r methiannau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn yn sylweddol ac yn barhaus. Mae'n ymddangos na wnaed unrhyw waith o ran monitro ALST cymeradwy ers mis Ionawr 2020 ac nid yw AauLST diweddaedig wedi'u hasesu eto. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae hyn, yn anuniongyrchol, yn achosi anghyfiawnder i Mr A a Mr B gan nad yw eu

hanghenion tai yn cael eu diwallu o hyd. Fy marn hefyd yw bod y methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn yn debygol o fod yn rhai systemig, gan fynd y tu hwnt i'r materion a nodwyd gyda monitro'r 2 awdurdod lleol y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol wedi cydnabod mai araf fu'r cynnydd ar adolygu AauLST. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai hefyd wedi codi pryderon am y broses ALST. Mae'r methiannau hefyd yn ymwneud â gweithredu deddfwriaeth newydd, gan fod cwyn Mr A a Mr B yn ymwneud â monitro'r AauLST cyntaf a gyflwynwyd ar ôl i'r Ddeddf Tai ddod i rym. Mae Mr A a Mr B wedi mynegi eu siom ynglŷn â'r ffordd y mae'r deddfwriaeth hon wedi'i gweithredu, a allai fod wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn eu barn nhw. Felly, am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn bod yr adroddiad hwn o ddiddordeb ehangach i'r cyhoedd.

71. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal. Nid fy lle i yw gwneud penderfyniad pendant ynghylch a yw corff wedi cydymffurfio â thelerau'r Ddeddf Cydraddoldeb, ond gallaf ystyried a yw sefydliad wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'w rwymedigaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr anghydraddoldeb a brofir yn aml gan Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r methiant, i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol o ran diwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr, yn awgrymu efallai nad yw wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i leihau'r anfanteision a wynebir gan Sipsiwn a Theithwyr mewn perthynas â llety.

72. Rwyf o'r farn hefyd fod amgylchiadau'r gŵyn hon wedi ymwneud ag Erthygl 8 o'r Confensiwn. Mae hyn oherwydd bod y diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn eu AauLST wedi cyfrannu at sefyllfa lle gallai hawliau Mr A a Mr B i gael parch at eu bywyd teuluol fod wedi'u peryglu.

73. Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio ei phwerau i sicrhau bod y 2 awdurdod lleol yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion y Ddeddf Tai. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad yw Mr A wedi gallu byw gyda'i deulu ehangach a rhoi cymorth iddynt. Mae hyn yn anghyfiawnder iddo. O ganlyniad i ddiffyg unrhyw leiniau preswyl awdurdodedig yn yr ail awdurdod lleol, mae

Mr B a'i deulu wedi bod yn ddigartref ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn achosi straen mawr ac yn cyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau hanfodol. Mae hyn yn anghyfiawnder iddo. Felly, rwy'n **cadarnhau**’r rhan hon o gŵyn Mr A a Mr B.

### **Deliwyd â'u cwyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.**

74. Cymerodd Lywodraeth Cymru dros 10 wythnos i ddweud wrth Mr A nad oedd ei ymchwiliad yn dod o fewn cwmpas ei pholisi cwynion. Pe bai Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd ymchwiliad Mr A yn dod o fewn cwmpas ei pholisi cwynion, dylid bod wedi dweud wrtho yn llawer cynt.

75. Roedd Mr A a Mr B wedi cwyno bod Llywodraeth Cymru wedi methu â monitro CBSC a CSD i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddiwallu'r angen a nodwyd am lety i Sipsiwn a Theithwyr. Roedd Mr A a Mr B yn gwneud cwyn am y camau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n eu cymryd, a dylid bod wedi ystyried eu cwyn o dan y polisi cwynion. Roedd Llywodraeth Cymru yn anghywir pan awgrymodd fod y gŵyn yn ymwneud â pholisi neu ddeddfwriaeth y Llywodraeth gan ei bod yn amlwg yn ymwneud â diffyg gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru o dan ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bodoli ac felly, daw yn gadarn o fewn polisi cwynion Llywodraeth Cymru.

76. Gofynnodd Mr A a oedd ei ethnigrwydd wedi dylanwadu ar y ffordd y deliwyd â'i gŵyn. Cysylltodd Mr A y ffordd y deliwyd â'i gŵyn ag agenda bolisi ehangach Llywodraeth Cymru ar lety i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi methiannau sylweddol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth y deliwyd â chwyn Mr A yn wahanol am ei fod yn Sipsi, ond mae Mr A yn parhau i amgyffred y gallai hyn fod wedi arwain at ei drin yn llai ffafriol.

77. Roedd y dull o ymdrin yn wael yn dystiolaeth o gamweinyddu pellach a achosodd anghyfiawnder i Mr A a Mr B. Roedd yr agwedd a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn groes i Egwyddorion Ymdrin â Chwynion yn Effeithiol ein Hawdurdod Safonau Cwynion.

78. Roedd hyn yn peri cryn rwystredigaeth i Mr A, a ddefnyddiodd asiantaeth eirioli i'w gynorthwyo wrth iddo ymwneud â Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn anghyfiawnder i Mr A a Mr B ac felly **rwy'n cadarnhau'r** rhan hon o'u cwyn.

## Argymhellion

79. Rwy'n **argymell** cyn pen **1 mis** o'r adroddiad terfynol:

- a) Dylai Llywodraeth Cymru ymddiheuro i Mr A a Mr B am y methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn.
- b) Dylai Llywodraeth Cymru gynnig taliad o £1,000 yr un i Mr A a Mr B i gydnabod yr anghyfiawnder a achoswyd iddynt o ganlyniad i'r methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn.
- c) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhoi gwybod yn glir i awdurdodau lleol am y gofyniad i barhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn AauLST cymeradwy wrth i AauLST diwedddaredig gael eu hasesu gan Lywodraeth Cymru.
- d) Dylai Llywodraeth Cymru atgoffa staff sy'n ymdrin â chwynion o bwysigrwydd ymateb mewn modd amserol. Dylai hefyd sicrhau bod yr holl staff sy'n ymdrin â chwynion yn cael hyfforddiant ar ei bolisi cwynion a sut y dylid ei gymhwyso.

80. Rwy'n argymell cyn pen **4 mis** o'r adroddiad terfynol:

- e) Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu a ddylid cymeradwyo'r AauLST diwygiedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol.

81. Rwy'n argymell cyn pen **6 mis** o ddyddiad yr adroddiad terfynol:

- f) Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun ar gyfer sut y bydd yn adolygu'r broses ALST a'r trefniadau monitro.

82. Rwy'n falch o allu nodi, wrth wneud sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r adroddiad hwn, bod **Llywodraeth Cymru** wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.


*MM. Morris.*

**Michelle Morris**

22 Mawrth 2024

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus





Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203  
Gwefan: [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)  
E-bost: [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)  
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales



**TGP Cymru**

[Travelling Ahead: All-Wales Gypsy, Roma and Traveller Advice and Advocacy service](#)

**Contact:**

**E:** [travellingahead@tgpcymru.org.uk](mailto:travellingahead@tgpcymru.org.uk)

**T:** 01633 509544

**PRESS RELEASE**

**04/04/2024**

**Ombudsman for Wales investigation finds Welsh Government failed to ensure that local authorities are carrying out their duties to provide accommodation for Gypsies and Travellers.**

In a [Public Interest report](#) published today the Ombudsman has upheld the complaints made by two families who have been waiting for site provision in the areas they live, which their local authorities are required by law to provide, and finds that Welsh Government failed to adequately monitor local authorities in carrying out their duties under the Housing (Wales) Act 2014.

The report recommends that the Welsh Government apologises for the failings identified and the impact upon the families. The report also sets out further recommendations for Welsh Government to improve the way in which the assessment and provision of sites are monitored and carried out under the legislation

[Travelling Ahead](#), the all-Wales Advocacy Service working with Gypsy, Roma and Traveller communities is issuing the below statement on behalf of the complainants who wish to remain anonymous:

***“We are very glad that our complaint to the Ombudsman has been upheld.***

***It proves to the general public that this government was quick to pass legislation in 2014 to make sites for Gypsies and Travellers, but failed to monitor councils to make sure sites were provided. This***

***also gave councils the impression that they don't have to abide by their legal duties in the Housing (Wales) Act 2014***

***That has left Gypsies and Travellers, our families, and others, with no accommodation for years; despite the need being known through the Gypsy and Traveller Accommodation Assessments which councils have to carry out every 5 years***

***Please remember that there have been very few residential sites made across Wales and not one transit site has ever been developed anywhere in Wales since the legal duty came in – leaving us (and the general public) frustrated with nowhere for our families to live permanently or park our vehicles while travelling – 10 years after the Act came in this lack of progress is shocking***

***It is our belief that our councils have had no ambition at all to provide any type of cultural accommodation for Gypsies and Travellers and at no point has Welsh Government shown any willingness to make councils abide by the law despite the evidence and our complaints***

***Why would any council act when they are not monitored or spurred on to make sites? That's why councils drag their feet***

***We welcome these findings and are hoping that Welsh Government will now push councils in Wales to build residential and transit sites both for our families and all those others over Wales who need them as well"***

Travelling Ahead is pleased that the families' complaints have been fully investigated and upheld by the Ombudsman – the service worked with the families to make sure their complaints were taken seriously and the publishing of complaint as a Public Interest report provides an opportunity for better progress to be made across all local authorities in Wales

The Housing Act duty was brought in for a reason and it has been disappointing and frustrating for families across all of Wales that it has not led to the site provision it was intended to. Like the complainants we welcome the recommendations and hope they make a difference to families across all of Wales

END

TGP Cymru is the working name of Tros Gynnal Plant. Registered Charity No. 1099878. Registered as a company limited by guarantee No. 04422485 (England & Wales).  
Registered Office: Spark, Maindy Road, Cardiff. CF24 4HQ - 029 2039 6974 - [www.tgpcymru.org.uk](http://www.tgpcymru.org.uk)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref

Ein cyf/Our ref

John Griffiths AS

Cadeirydd – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl John,

### **Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Diolch i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am ystyried y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad cyfatebol ar 15 Mawrth 2024.

Gweler isod ymatebion y Llywodraeth i argymhellion yr adroddiad. Rwyf yn falch fy mod i wedi gallu derbyn llawer o'r argymhellion.

Fodd bynnag, nid wyf wedi gallu derbyn yr argymhellion hynny sy'n cynnig cyfnodau gosod estynedig ac ymgynghoriad statudol ar is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan adrannau 5 (rhyddhad ardrethi annomestig), 9 (esemptiadau ardrethi annomestig) 10 (lluosyddion ardrethi annomestig), 13 (osgoi ardrethi annomestig) a 18 (gostyngiad yn y dreth gyngor) o'r Bil. Mae'r ymateb i bob un o'r argymhellion hyn yn nodi'r effaith y byddai cyfnod gosod estynedig a/neu ymgynghoriad statudol yn ei chael, ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai o'r pwerau hyn yn gysylltiedig, ac yn ategu ei gilydd drwy weithredu ar wahanol bamedrau o fewn y system dreth leol. O'r herwydd, mae gweithredu'r system yn y ffordd orau bosibl yn ei chyfanrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru allu defnyddio'r adnoddau hyn o fewn yr un prosesau ac amserlenni deddfwriaethol cyson.

Rwyf hefyd wedi atodi er gwybodaeth gopiâu o'r llythyrau rwyf wedi eu hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The script is cursive and fluid.

**Rebecca Evans AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet  
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

## Atodiad

### Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymhell bod y Senedd yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**NODWYD.** Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol ar gyfnod 1, ac am argymhell y dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol ar ddefnyddio pwerau o dan adrannau 5, 9, 10, 13 a 18 o'r Bil.

Dylid cynnal yr adolygiad cyn diwedd y Seithfed Senedd a dylai gynnwys:

- Asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghyd-destun rhyddhad ardrethi annomestig, esemptiadau, lluosyddion, darpariaethau gwrth-osgoi a gostyngiadau yn y dreth gyngor; a
- Gofyniad i ymgynghori â'r Senedd.

**DERBYN MEWN EGWYDDOR.** Yn hytrach na chynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad statudol ar wyneb y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl cam 2 i gynnwys ymrwymiad anstatudol i gynnal adolygiad ôl-weithredu o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth hon cyn diwedd y seithfed Senedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y pwerau perthnasol i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y trefniadau sydd ar waith i fonitro capasiti Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thriwlynlys Prisio Cymru ar ôl rhoi cylchoedd ailbrisio byrrach ar waith.

**DERBYN.** Drwy drefniadau nawdd sefydledig ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru a'n Cytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae gennym drefniadau hirsefydlog ar waith i fonitro capasiti a darpariaeth y ddau sefydliad. Mae'r ddau sefydliad yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ac yn monitro'r ddarpariaeth yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd am unrhyw waith a wneir a chynigion sy'n cael eu hystyried i newid y Dyddiad Prisio Rhagflaenol yn y dyfodol.

**DERBYN.** Bydd y Senedd yn cael gwybod am unrhyw gynnig yn y dyfodol i gwtogi'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol, sy'n ystyriaeth tymor hwy. Yn unol â'r arfer sefydledig, bydd rheoliadau i bennu'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol ar gyfer rhestrau ardrethu yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno ar yr adeg briodol.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4

diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynnigir o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi neu i dynnu rhyddhad yn ôl.

**GWRTHOD.** Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid oes yr un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer rhyddhadau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Mae'n debygol na fyddai'r weithdrefn a argymhellir yn ymarferol yn aml, oherwydd bod angen i awdurdodau lleol roi newidiadau i'r system filio ar waith yn y misoedd cyn 1 Ebrill bob blwyddyn.

Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd, yn enwedig pan fydd Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru. Fel enghraifft ymarferol, ni fyddem wedi gallu darparu'r rhyddhad trosiannol hael a chynhwysfawr a roddwyd ar waith yn dilyn ailbrisiad 2023 pe bai'r rheoliadau (a wnaed o dan y pŵer presennol yn adran 58 o Ddeddf 1988) wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn arfaethedig. Ni fyddai digon o amser wedi bod i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r rhyddhad ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol. Er na fyddai'r argymhelliad yn berthnasol i'r pŵer y dibynnir arno yn yr enghraifft honno, gallai cyd-destun tebyg fod yn berthnasol i ddefnydd posibl o'r pwerau yn adran 5 y Bil.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn adran 5, pan fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i roi neu i dynnu rhyddhad yn ôl.

**GWRTHOD.** Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid oes unrhyw un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer rhyddhadau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Yr arfer sefydledig yw ein bod fel arfer yn ymgynghori cyn defnyddio pwerau rhyddhad presennol (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys darparu rhyddhad gwella a rhyddhad rhwydweithiau gwres o 1 Ebrill 2024 ymlaen), yn unol â'r rhwymedigaethau hyn. Fodd bynnag, gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd lle bu angen gweithredu ar frys heb ddigon o amser i ymgynghori, ac yn enwedig pan fydd Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru.

Fel enghraifft ymarferol o'r cyfyngiad y byddai'r argymhelliad hwn yn ei osod pe bai'n berthnasol i bwerau presennol, ni fyddem wedi gallu darparu'r rhyddhad trosiannol hael a chynhwysfawr a roddwyd ar waith yn dilyn ailbrisiad 2023 pe bai angen ymgynghori wedi digwydd cyn cyflwyno'r rheoliadau (a wnaed o dan adran 58 o Ddeddf 1988). Ni fyddai digon o amser wedi bod i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r rhyddhad ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol. Er na fyddai'r argymhelliad yn berthnasol i'r pŵer y dibynnir arno yn yr enghraifft honno, gallai cyd-destun tebyg fod yn berthnasol i ddefnydd posibl o'r pwerau yn adran 5 y Bil.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau ar y gofynion cymhwyso diwygiedig ar gyfer rhyddhad ardrethi i elusennau. Dylid gwneud y gwaith cyn i'r darpariaethau yn adran 6 ddod i rym.

**DERBYN.** Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau cyfredol ar yr amrywiaeth o ryddhad ardrethi annomestig sydd ar gael, gan gynnwys mewn perthynas ag elusennau ac eiddo heb ei feddiannu. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau ar ôl pasio'r Bil a chyn i adran 6 ddod i rym.

**Argymhelliad 8:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio'n benodol i roi neu i dynnu esemptiadau yn ôl.

**GWRTHOD.** Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer esemptiadau newydd drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy ohirio darparu esemptiad newydd.

Mae sawl ffordd y gellir lleihau atebolrwydd trethdalwr i sero. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth neu bwerau disgresiwn presennol awdurdodau lleol i ddarparu rhyddhad llawn. Mae esemptiadau yn ddewisiadau eraill posibl yn lle darparu rhyddhad llawn, a gymhwysir pan ystyrir y dylai'r swm taladwy o ardrethi annomestig ar gyfer math penodol o eiddo fod yn sero ar sail barhaol. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai cost a dim budd yn gysylltiedig â phrisio eiddo o'r math hwnnw. Gan hynny, nid yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd na mecanweithiau deddfwriaethol neu ddewisol eraill sydd eisoes yn bodoli, ond bydd yn darparu mwy o gysondeb ar draws y gwahanol elfennau hyn o'r system.

**Argymhelliad 9:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 9, pan fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i roi neu i dynnu esemptiadau yn ôl.

**GWRTHOD.** Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer esemptiadau newydd drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Mae fy ymateb i argymhelliad 8 uchod yn disgrifio'r modd nad yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol neu ddewisol eraill sydd eisoes yn bodoli.



**Argymhelliad 10:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

**GWRTHOD.** Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd unigol presennol ar unrhyw lefel drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy atal ymyriad buddiol yn y gwaith parhaus o gynnal a chadw unrhyw luosydd gwahaniaethol, ar ôl ei weithredu. Mae Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull Llywodraeth Cymru o bennu'r lluosydd yn flynyddol. Mae hyn yn cael ei ddangos gan ddefnydd Llywodraeth Cymru o'r pŵer presennol, i rewi neu gyfyngu ar dwf yn y lluosydd bob blwyddyn ers 2018-19. Mae'r penderfyniadau cysylltiedig wedi cael eu gwneud fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, yn dilyn Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig. O dan y weithdrefn a argymhellir, ni fyddai digon o amser i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r lluosydd penodol ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol.

**Argymhelliad 11:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau yn adran 10, pan fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

**GWRTHOD.** Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd unigol presennol ar unrhyw lefel drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Er fy mod i wedi ymrwymo i ymgynghori cyn cyflwyno unrhyw luosydd gwahaniaethol, byddai'r un ystyriaeth flynyddol ag sy'n berthnasol i osod y lluosydd presennol yn berthnasol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy atal ymyriad buddiol yn y gwaith parhaus o gynnal a chadw unrhyw luosydd gwahaniaethol, ar ôl ei weithredu. Mae Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull Llywodraeth Cymru o bennu'r lluosydd yn flynyddol, fel y disgrifir mewn ymateb i argymhelliad 10. Pe bai angen ymgynghori mewn perthynas â chynnal a chadw lluosyddion yn flynyddol, ni fyddai digon o amser wedi bod i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r lluosydd penodol ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i asesu pa mor addas yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 12, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adolygu'r profiad yn Lloegr.

**GWRTHOD.** Nid yw'r dyletswyddau sy'n cael eu hymestyn i Gymru gan y Bil wedi cael eu cychwyn eto mewn perthynas â Lloegr. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno  
Tudalen y pecyn 86

cychwyn y darpariaethau ar yr un pryd, o gofio mai bwriad y dyletswyddau newydd yw cynorthwyo ailbrisiadau amlach yn gyson yng Nghymru a Lloegr.

I ddechrau, cynigiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig amserlenni 30 diwrnod ar gyfer y trefniadau yn Lloegr a chynyddodd y cyfnod hwn i 60 diwrnod o ganlyniad i adborth a gafwyd drwy eu hymgyngoriad. Buom yn ymgynghori ar gynnig ar gyfer amserlenni 60 diwrnod ar y dechrau, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn perthnasol yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

Ar ben hynny, mewn perthynas â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy o dan baragraff 4J o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae adran 12(4) o'r Bil yn mewnosod diwygiad i alluogi'r trethdalwr ar gyfer hereditament yng Nghymru i geisio estyniad i'r terfyn amser o 60 diwrnod o'r prisiad. Bydd darparu diweddariadau rhagweithiol yn brydlon yn lleihau'r gwaith y bydd trethdalwyr yn gorfod ei wneud, gan y bydd yr wybodaeth berthnasol ar gael yn haws nag y byddai pe bai wedi cael mwy o amser neu wedi aros i ymateb i gais adweithiol. Mae Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi darparu ymrwymadau clir mewn perthynas â gweithredu'r dyletswyddau hysbysu a'r drefn gydymffurfio gysylltiedig yn deg ac yn gymesur.

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddechrau adran 12 yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

**GWRTHOD.** Mae'r darpariaethau wedi eu nodi'n llawn ac maent yn destun craffu parhaus yn ystod hynt y Bil. Rwyf wedi rhoi sicrwydd clir na fydd y darpariaethau'n cael eu rhoi ar waith nes bydd Llywodraeth Cymru yn fodlon y gellir disgwyl yn rhesymol i drethdalwyr gydymffurfio. Roedd tystiolaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'r Pwyllgor yn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch y gwaith maent yn ei wneud i sicrhau bod y trefniadau'n syml i drethdalwyr ymgysylltu â nhw.

**Argymhelliad 14:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 13, wrth bennu trefniadau osgoi artiffisial.

**GWRTHOD.** Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Byddai mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn arwain at oedi wrth fynd i'r afael â threfniadau gwrth-osgoi a nodwyd, gan arwain at osgoi atebolrwydd am gyfnod hir. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13 y Bil wedi cael ei ddylunio'n ofalus i fod mor gyfyngedig â phosibl, gan barhau i alluogi'r bwriad polisi hirsefydlog ac annadleuol y tu ôl i'r darpariaethau i gael ei gyflawni. Bydd cynigion i ddiffinio trefniadau osgoi artiffisial newydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno rheoliadau. Rwy'n fodlon ystyried cynnwys rheoliadau drafft mewn ymgynghoriadau o'r fath. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn ar adegau penodol i sicrhau bod rheoliadau mwy newydd neu gymhleth yn cyflawni bwriad y polisi a byddai hyn hefyd yn galluogi craffu dros dro fel mae'r Senedd o'r farn ei fod yn briodol. Nid wyf yn cael fy nenu at ddyletswydd statudol i fabwysiadu'r dull a argymhellir, gan y byddai'n anghymesur lle gellir gwneud mwy o fân newidiadau i sicrhau bod darpariaethau sydd eisoes wedi eu sefydlu yn parhau i fod yn effeithiol.

**Argymhelliad 15:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau dan adran 18, ac eithrio pan fyddant yn newid cyfraddau'r disgownt.

**GWRTHOD.** Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn rheolaidd ei hymrwymiad i ymgynghori ystyrion pan fydd newidiadau polisi i'r dreth gyngor wedi cael eu cynnig. Gan hynny, nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid oes unrhyw un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer newidiadau i ddisgowntiau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr y cyngor dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd. Fel enghraifft ymarferol o hyn, roedd modd i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym i sicrhau nad oedd aelwydydd lletyol a oedd yn cynnig llety i bobl o Wcráin a oedd yn ceisio diogelwch rhag y rhyfel yn colli'r hawl i ostyngiadau presennol ac yn wynebu costau treth gyngor ychwanegol.

**Argymhelliad 16:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 18, ac eithrio wrth newid y cyfraddau disgownt.

**GWRTHOD.** Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid oes yr un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cymorth tebyg drwy esemptio a diystyru drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Argymhelliad 17:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu monitro gweithrediad y darpariaethau yn adran 20 ar draws awdurdodau lleol a gwerthuso eu heffaith ar hygyrchedd a thryloywder.

**DERBYN.** Byddaf yn gweithio gyda llywodraeth leol i fonitro gweithrediad y darpariaethau yn adran 20.

**Argymhelliad 18:** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei chynigion ar gyfer trefniadau pontio y gallai fod eu hangen i gynorthwyo aelwydydd ac awdurdodau lleol o ganlyniad i'r ailbrisiad o'r dreth gyngor sydd ar y gweill.

**DERBYN.** Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd maes o law. Roedd yr ymgynghoriad yng Nghyfnod 2 yn ymrwmo i weithredu trefniadau pontio wedi eu targedu a bydd angen cynllunio'r rhain maes o law. Mae cynlluniau rhyddhad trosiannol yn gyffredin ar gyfer ailbrisiadau o'r dreth leol, a darparwyd cynllun yn dilyn ailbrisiad 2005 o'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae cynlluniau rhyddhad yn fuddsoddiad hanfodol i hwyluso'r effeithiau ar drethdalwyr.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

### **Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Diolch i'r Pwyllgor Cyllid am ystyried y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad cyfatebol ar 15 Mawrth 2024.

Gweler isod ymatebion y Llywodraeth i gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad. Rwy'n falch fy mod wedi gallu derbyn yr holl argymhellion.

Rwyf hefyd wedi atodi, er gwybodaeth, gopïau o'r llythyrau yr wyf wedi eu hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Hefyd rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor.

Rwy'n edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad

### Ymatebion i Gasgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

**Casgliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**NODWYD.** Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu gofalus cam 1, ac am ddod i'r casgliad eich bod yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil.

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ymrwymo i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl mewn perthynas â chostau'r Bil drwy gyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn.

**DERBYN** Rydym yn cydnabod y bydd angen asesiadau effaith pellach wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Bydd y costau a'r manteision a amcangyfrifwyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn y modd arferol.

Yn unol â'r gofynion o dan Reol Sefydlog 27 a'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fewn y Memorandwm Esboniadol wrth wneud rheoliadau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i Llawlyfr Deddfwriaeth ei hun mewn perthynas â gosod is-ddeddfwriaeth i Filiau.

**DERBYN** Bydd y pwerau a gynigir yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd yn lleihau dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar Filiau Llywodraeth y DU i gyflawni newidiadau i Gymru, ac yn caniatáu i newidiadau gael eu gwneud mewn modd amserol. Felly, mae rhannau o'r Bil yn ymwneud â chreu strwythurau a fydd yn caniatáu i'r Llywodraeth gyflwyno is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, eglurais yr heriau o ran costio is-ddeddfwriaeth lle mae'r cwmpas a'r manylion i'w cadarnhau. Fel y dywedais bryd hynny, bydd unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â gofynion y Llawlyfr Deddfwriaeth.

**Argymhelliad 3:** Mewn perthynas â systemau amgen o drethiant lleol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog:

- yn parhau i archwilio pob llwybr ar gyfer newid er mwyn sicrhau bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud ynghylch y system drethiant lleol fwyaf priodol; ac
- yn darparu copi o'r map ffordd ar gyfer treth gwerth tir, ynghyd ag amlinelliad o unrhyw gostau cysylltiedig, i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**DERBYN** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried systemau amgen o drethiant lleol ers 2016, ac mae wedi gwneud ymchwil helaeth. Daeth [crynodeb o'r canfyddiadau](#) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 i'r casgliad nad oedd modd symud i ffwrdd oddi wrth y system drethiant lleol bresennol yn gyfan gwbl yn y tymor byr i'r tymor canolig. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i archwilio opsiynau eraill i'w hystyried ar gyfer y tymor hirach.

O ran treth gwerth tir leol, rydym wedi sicrhau capasiti academaidd ychwanegol yn ddiweddar drwy gynllun cenedlaethol Cymrodoriaeth Cyngor Ymchwil y DU i helpu Llywodraeth Cymru i ymchwilio i nifer o faterion allweddol ymhellach ac i gryfhau ein sail dystiolaeth. Bydd casgliadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyriaeth ychwanegol.

Hefyd, gan ddarparu cywiriad i'r Pwyllgor: mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ymrwymiad i lunio map ffordd erbyn diwedd *tymor y Senedd hon* ac nid *tymor yr haf* fel y nodir ym mharagraff 29 yr adroddiad.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn adolygu'r pwyntiau a godwyd ynghylch anghysondebau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn yr adran hon, gyda'r bwriad o egluro'r wybodaeth a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN** Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ddod â'r rhain i'n sylw. Byddwn yn adolygu hyn er mwyn sicrhau bod y ffigurau'n gyson. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei ddarparu cyn cam 3.

**Argymhelliad 5:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y risgiau a'r goblygiadau cost i Gymru, os bydd yn ymwahanu oddi wrth Loegr, o ran amseriad ei hailbrisiadau ardrethi annomestig, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN** Fel y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl meintoli'n llawn y costau a'r risgiau a fyddai'n codi yn sgil ymwahanu. Fodd bynnag, mae'n bosibl darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau sy'n ymwneud ag adnoddau i Asiantaeth y Swyddfa Brisió, ynghyd â'r risgiau lefel uchel. Bydd y ffigurau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cam 3.

**Argymhelliad 6:** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyfanswm cost y ddyletswydd newydd i dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth gyfredol i Asiantaeth y Swyddfa Brisió, yn benodol, a yw'r gost o £35 a £20 fesul talwr ardrethi yn ychwanegol at y costau a amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch perthnasol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN** Mae'r ffigurau'n cynrychioli amcangyfrif cyfartalog o gostau ychwanegol cydymffurfio. Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. I rai talwyr ardrethi, ni fydd costau cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd yn golygu costau newydd neu ychwanegol o'u cymharu â'r rhai a delir o dan y system bresennol. Bydd rhagor o wybodaeth ac esboniad yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cam 3.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y costau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â system ar-lein newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Dylai hyn gynnwys pryd y bydd yn cael ei gweithredu a risgiau unrhyw oedi posibl wrth weithredu i dalwyr ardrethi sy'n cydymffurfio â'r gofynion newydd i ddarparu gwybodaeth, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN.** Nid yw cwblhau ymarfer ailbriso yn 2026 yn ddibynnol ar lansio'r system ar-lein, gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes yn paratoi i ymgymryd â'r ymarfer hwnnw o dan y trefniadau presennol. Bwriedir i'r system sicrhau cynaliadwyedd ailbrisiadau amlach dros y tymor hirach. Nid oes unrhyw risg i dalwyr ardrethi sy'n gysylltiedig ag amseriad y lansiad, oherwydd dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon ei bod yn rhesymol disgwyl i dalwyr ardrethi gydymffurfio y bydd y dyletswyddau'n dod i rym. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys, ochr yn ochr â'r amcangyfrif o'r costau a ddarparwyd eisoes, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cam 3.

**Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar y dull o ddiwygio'r dreth gyngor. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost o unrhyw opsiynau posibl y gellid eu hystyried yn dilyn yr ymgynghoriad Treth Gyngor Decach: cam 2 ac unrhyw oblygiadau i'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**DERBYN.** Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor maes o law, yn amlinellu manylion unrhyw benderfyniadau pellach a wneir ac unrhyw oblygiadau ar gyfer y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**Argymhelliad 9:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y gweithgor sy'n gyfrifol am ystyried yr esemptiadau treth gyngor presennol ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud i symleiddio disgowntiau a diystyriadau.

**DERBYN.** Rydym yn parhau i adolygu'r ystod o ostyngiadau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn parhau i fod yn berthnasol i uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru. Mae 53 o gategoriâu i'w hadolygu. Hyd yma, rydym wedi cadarnhau y bydd y gostyngiad un oedolyn o 25% yn parhau, a hefyd ein bwriad i gael gwared ar y disgownt eiddo gwag ac eithrio o dan rai amgylchiadau. Ar ôl yr [ymgynghoriad](#) diweddar, rydym yn dadansoddi'r ymatebion i gynigion ar gyfer eithriad Dosbarth F ar gyfer eiddo gwag lle nad yw profiant neu lythyron gweinyddu wedi'u rhoi eto, a'r eithriad a'r diystyriad i bobl â nam meddyliol difrifol.

Byddwn yn ymgynghori ar gynigion pellach yn nes ymlaen eleni, a gellid cyflwyno newidiadau fesul cam dros gyfnod o amser, gyda rhai newidiadau'n cael eu gweithredu ym mlwyddyn ariannol 2026-27. Bydd unrhyw reoliadau a ddatblygir gennym yn cael eu hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn nodi costau, manteision a risgiau unrhyw newidiadau arfaethedig i'r drefn bresennol.

**Argymhelliad 10:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y trefniadau trosiannol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gyfyngu ar effaith ailbrisiadau'r dreth gyngor ar aelwydydd ac awdurdodau lleol.

**DERBYN.** Rydym yn parhau i ystyried manylion y trefniadau trosiannol fel rhan o ddiwygio'r dreth gyngor. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu'r manylion unwaith y bydd y

ffordd ymlaen yn dilyn ymgynghoriad cam 2 yn hysbys. Bydd manylion y trefniadau trosiannol, gan gynnwys costau, manteision, ac effeithiau hefyd yn cael eu hamlinellu mewn Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân, sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol sydd ei hangen i roi effaith i'r trefniadau.

**Argymhelliad 11:** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu yn asesu costau a manteision cyffredinol y Bil, gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed ac a yw'r rhain yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

**DERBYN.** Mae nifer o brosesau monitro a gwerthuso eisoes ar waith i fesur effeithiau polisi a goblygiadau ariannol deddfwriaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol i sicrhau bod aseuadau parhaus yn digwydd mewn perthynas â sut mae'r ddeddfwriaeth wedi dod i rym a'r effeithiau sy'n deillio o hynny.

Bydd is-ddeddfwriaeth a grëir o dan y Bil yn cael ei chefnogi gan ei Aseuadau Effaith Rheoleiddiol ei hun, gan amlinellu cynlluniau monitro a gwerthuso, gan gynnwys goblygiadau ariannol sy'n benodol i'r effeithiau perthnasol.





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Our ref:

Y Cadeirydd – Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl Cadeirydd,

### Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad cyfatebol ar 6 Mawrth 2024.

Gweler fy ymateb isod i'r set o argymhellion a chasgliadau yn yr adroddiad. Rwyf yn falch fy mod i wedi gallu derbyn llawer o'r argymhellion.

Nid wyf wedi gallu derbyn y grŵp o argymhellion tebyg i hepgor sawl rhan o'r Bil sy'n cynnwys pwerau gwneud rheoliadau. Mae'r ymateb i bob argymhelliad o'r fath yn nodi'r effaith y byddai dileu'r adran berthnasol yn ei chael, ar ei ben ei hun. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai o'r pwerau hyn yn gysylltiedig, gan eu bod yn ategu ei gilydd drwy weithredu ar wahanol bamedrau o fewn y system dreth leol. Byddai sefyllfa ganolraddol bosibl, a oedd yn cadw rhai o'r pwerau hyn ac yn cael gwared ar rai eraill, yn golygu nad fyddem bob amser yn gallu defnyddio'r adnodd mwyaf priodol mewn ymateb i flaenoriaethau yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai cymorth ardrethi annomestig newydd yn cael ei ddarparu fel rhyddhad, eithriad neu luosydd gwahaniaethol, yn dibynnu ar y dull gorau o gyflawni'r nod polisi penodol. Mae'n bwysig bod yr holl offer hyn yn cael eu defnyddio i'r un graddau gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, er mwyn cynnal y bwriad polisi y tu ôl i'r darpariaethau a sicrhau bod y system gyfan yn gweithredu yn y ffordd orau.

Rwyf wedi atodi er gwybodaeth gopi'au o'r llythyrau rwyf wedi eu hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Cyllid, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor hynny.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

*Rebecca Evans.*

**Rebecca Evans AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet  
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

## **Ymatebion i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac Argymhellion ynglŷn â'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Gweinidog ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn cynnal y ddafl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

**DERBYN.**

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw wedi cael trafodaethau gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Chabinet Llywodraeth Cymru ynghylch y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i atgyfnerthu'r gyfraith ar drethiant lleol.

**DERBYN.** Trafodais ddewisiadau deddfwriaethol gyda'r Cwnsler Cyffredinol cyn drafftio'r Bil ac, fel yr eglurais i'r Pwyllgor, gwnaethpwyd y penderfyniad i beidio ag atgyfnerthu'r gyfraith ar drethiant lleol ar hyn o bryd. Mae ymrwymiad parhaus y Pwyllgor i hygyrchedd cyfraith Cymru a chefnogaeth ar gyfer cyfuno yn ddefnyddiol, a bydd y canfyddiadau yn adroddiad y Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth i gynigion ar gyfer prosiectau cyfuno yn y dyfodol gael eu datblygu. Gan hynny, rwyf wedi rhannu barn y Pwyllgor ar y mater hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol.

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Gweinidog roi manylion llawn pam, ar bob un o'r achlysuron a grybwyllir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil ac yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024 pan ddefnyddiwyd Biliau'r DU, na fyddai'r Senedd wedi gallu pasio ei deddfwriaeth ei hun i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i'r systemau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru.

**DERBYN.** Mae'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â phob achlysur pan gyflwynwyd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'r ystyriaethau a'r rhesymeg allweddol dros argymell cydsyniad. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i gael gafael ar yr wybodaeth hon, darperir dolenni yn **Atodiad A** i'r llythyr hwn.

**Argymhelliad 4:** Dylai'r Gweinidog ddarparu i'r Senedd restr glir, lawn a manwl o bob un o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil, drwy gyfeirio at leoliad penodol, math, gweithdrefn craffu, ac a yw'n bŵer wedi ei ailddatgan (wedi ei ddiwygio neu heb ei ddiwygio).

**DERBYN.** Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gael yn Atodiad B y llythyr hwn. Ystyrir mai'r "pwerau wedi eu hailddatgan heb eu diwygio" yw'r rhai sy'n cael yr un effaith â'r pwerau presennol, er y gallai rhai mân ddiwygiadau testunol fod wedi cael eu gwneud i sicrhau eglurder. Ystyrir mai'r "pwerau wedi eu hailddatgan gyda diwygiadau" yw'r rhai sydd, yn fras, yn cael yr un effaith â'r pwerau presennol ond lle mae diwygiadau mwy sylweddol wedi eu gwneud.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 5.

**GWRTHOD.** Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) eisoes yn cynnwys amrywiaeth o bwerau unigol i Weinidogion Cymru eu darparu ar gyfer rhyddhad drwy reoliadau. Nid yw’r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol a dewisol eraill sydd eisoes yn bodoli, ond mae’n darparu ar gyfer cysondeb ar draws tirwedd rhyddhad.

Gallai mabwysiadu’r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd lle mae angen gweithredu’n gyflym iawn. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys yr angen i ddibynnu ar fecanweithiau dewisol i ddarparu dros £1 biliwn o ryddhad i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21 a’r gyllideb sydd ar gael i lywio dull Llywodraeth Cymru o ddarparu rhyddhad trosiannol ar ôl i Ddatganiad yr Hydref 2022 Llywodraeth y Deyrnas Unedig effeithio ar ailbrisiad 2023.

**Argymhelliad 6:** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i hepgor adran 9.

**GWRTHOD.** Gallai mabwysiadu’r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy ohirio darparu eithriad newydd. Mae sawl ffordd y gellir lleihau atebolrwydd trethdalwr i sero. Mae’r rhain yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth neu bwerau disgresiwn presennol awdurdodau lleol i ddarparu rhyddhad llawn. Mae eithriadau yn ddewis arall yn lle darparu rhyddhad llawn, a gymhwysir pan ystyrir y dylai’r swm taladwy o ardrethi annomestig ar gyfer math penodol o eiddo fod yn sero ar sail barhaol. Mewn amgylchiadau o’r fath, byddai cost a dim budd yn gysylltiedig â phrisio eiddo o’r math hwnnw. Gan hynny, nid yw’r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd na mecanweithiau deddfwriaethol neu ddewisol eraill sydd eisoes yn bodoli, ond mae’n darparu mwy o gysondeb ar draws y gwahanol elfennau hyn o’r system.

**Argymhelliad 7:** Dylai’r Gweinidog roi rhesymau llawn a manwl pam na wneir darpariaeth ar wyneb y Bil ar gyfer lluosydd ar gyfer busnesau bach.

**DERBYN.** Nid oes bwriad polisi ar hyn o bryd i greu lluosydd busnesau bach ar gyfer Cymru. Mae creu lluosydd ar gyfer busnesau bach yn un enghraifft yn unig o ddull y byddai modd ei fabwysiadu gan ddefnyddio’r pwerau yn adran 10 y Bil. Defnyddiwyd yr enghraifft hon oherwydd ei bod yn dangos sut mae’r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â pholisïau sy’n cael eu hargymell gan Aelodau’r Senedd.

Mae ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno targedu’r defnydd o luosyddion gwahaniaethol, mewn perthynas â’n blaenoriaethau ac anghenion Cymru. Bwriad Adran 10 yw galluogi dadansoddiad o amrywiaeth ehangach o ddewisiadau polisi wrth ystyried a ddylid cyflwyno lluosydd gwahaniaethol ar gyfer Cymru.

**Argymhelliad 8:** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil i hepgor adrannau 10 ac 11.

**GWRTHOD.** Mae Deddf 1988 eisoes yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd sengl presennol ar unrhyw lefel. Gan hynny, nid yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd na'r hyn sydd eisoes yn bodoli. Mae lluosyddion gwahaniaethol yn bodoli mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ac mae'r rhesymeg dros y darpariaethau hyn wedi ei nodi. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â pholisïau sy'n cael eu hargymell gan Aelodau'r Senedd (er enghraifft, cyflwyno a rhewi lluosydd is ar gyfer busnesau bach).

**Argymhelliad 9:** Dylai'r Gweinidog ddarparu enghreifftiau penodol o ymddygiad yn erbyn osgoi trethi a fyddai wedi cael sylw drwy ddefnyddio'r pŵer arfaethedig yn adran 13 yn y blynyddoedd diwethaf pe bai wedi bod ar gael i Weinidogion Cymru yn gynharach.

**DERBYN.** Mae'n werth nodi'n gyntaf, pe bai pŵer yn erbyn osgoi trethi wedi cael ei gyflwyno rai blynyddoedd yn ôl, na fyddai o reidrwydd wedi cael ei ddrafftio yn y ffordd y caiff ei gyflwyno yn awr, ac mae'r dirwedd y byddai wedi cael ei ddefnyddio ynddi wedi esblygu hefyd (o ganlyniad i gyfraith achosion, er enghraifft). Yn yr un modd ag unrhyw bŵer, byddai'r defnydd ohono hefyd yn destun ymgynghoriad. Gan hynny, gallai pŵer yn erbyn osgoi trethi fod wedi cael ei ddefnyddio'n wahanol mewn blynyddoedd blaenorol i'r ffordd y gellid defnyddio pŵer newydd yn y dyfodol. Yn ail, mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn o reidrwydd wedi ei gyfyngu i sut gellid bod wedi defnyddio pŵer. Nid yw'n fater o sut gellid bod wedi defnyddio cyfleoedd deddfwriaethol sylfaenol hefyd, pe baent wedi bod ar gael cyn hyn.

Gan roi'r materion hynny o'r neilltu, mae'n bosibl y byddai Gweinidogion Cymru wedi ceisio defnyddio pŵer yn erbyn osgoi trethi i fynd i'r afael â threfniadau osgoi sy'n dibynnu ar y canlynol:

- cynlluniau lliniaru ardrethi trydydd parti sy'n cael eu hysbysebu'n agored;
- trefniadau meddiannaeth nad ydynt yn cael eu gwneud ar sail fasnachol;
- cwmnïau ffenics yn manteisio ar ryddhad i eiddo heb ei feddiannu;
- "elusennau" anghyfreithlon yn manteisio ar ryddhad elusennol ar gyfer eiddo heb ei feddiannu.

Bydd y Pwyllgor yn gyfarwydd â phryderon ynghylch manteisio ar ryddhad elusennol ar gyfer eiddo heb ei feddiannu, gan fod y mater hwn bellach yn cael sylw yn adran 6 y Bil. Mae'r mater hwn wedi bod yn hysbys ers i ni ymgynghori ar amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael ag osgoi yn 2018. Pe bai pŵer yn erbyn osgoi trethi eisoes wedi bod ar gael bryd hynny, gallai Gweinidogion Cymru fod wedi ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r mater yn brydlon. Yn absenoldeb pŵer o'r fath, y Bil hwn yw'r cyfle cyntaf sydd ar gael i gymryd camau i fynd i'r afael â'r camfanteisio. Ystyrir bod diwygiadau i Ddeddf 1988 yn ddigonol yn yr achos hwn, oherwydd gellir mynd i'r afael â'r osgoi drwy gryfhau'r gofynion tystiolaeth y mae angen eu bodloni cyn rhoi'r rhyddhad. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i addasu deddfwriaeth bresennol lle'r ydym yn nodi y gellir gwneud gwelliannau, a nodir enghreifftiau eraill o'r dull hwn mewn ymateb i argymhelliad 10.

Fodd bynnag, rydym o'r farn na ellir mynd i'r afael â llawer o drefniadau osgoi yn ddigonol dim ond drwy newid y darpariaethau deddfwriaethol presennol sy'n cael eu hecsbloetio.

Mae argaeledd trefn gwrth-osgoi benodol sy'n darparu ar gyfer addasu atebolrwydd mewn achosion penodol lle mae trefniadau osgoi artiffisial yn ymateb i'r broblem honno. Bydd y drefn hon yn cael ei darparu gan y darpariaethau gwrth-osgoi newydd yn Neddf 1988 a'r offeryn statudol a fydd yn diffinio'r trefniadau artiffisial penodol. Mae'r dull deddfwriaethol hwn yn sicrhau y gellir delio â thechnegau osgoi trethi, sy'n esblygu'n barhaus, yn brydlon, er mwyn lleihau'r risg refeniw i gyllid y wlad.

**Argymhelliad 10:** Dylai'r Gweinidog egluro sut mae Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-osgoi o'r fath yn y gorffennol, o ystyried natur hirsefydlog ardrethu annomestig.

**DERBYN.** Fel y disgrifiwyd mewn ymateb i argymhelliad 9, mae absenoldeb rhai o'r pwerau yn y Bil wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag osgoi mewn modd amserol. Mae mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig yn faes lle mae Llywodraeth Cymru ar y blaen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ar ôl gwneud cynnydd graddol o ran gweithredu amrywiaeth o fesurau a gyhoeddwyd yn 2018. Mae rhai mesurau wedi bod yn bosibl eu cyflawni gan ddefnyddio rheoliadau (e.e. cynyddu'r cyfnod rhwng achosion o gymhwysedd ar gyfer rhyddhad ar gyfer eiddo heb ei feddiannu), ond mae deddfwriaeth sylfaenol wedi bod yn angenrheidiol ar gyfer y rhan fwyaf o bethau (e.e. pwerau i awdurdodau lleol fynd i mewn ac arolygu eiddo neu ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon sy'n cynnal busnes mewn perthynas ag eiddo). Lle mae deddfwriaeth sylfaenol wedi bod yn ofynnol, mae'r cyfleoedd ar gyfer darpariaethau mewn cyfrwng deddfwriaethol addas wedi bod yn gyfyngedig. Am y rheswm hwn, mae adrannau 6 a 13 o'r Bil hwn yn darparu ar gyfer dau o'r mesurau a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018.

**Argymhelliad 11:** Os nad oes tystiolaeth benodol yn dangos bod angen y pŵer, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 13.

**GWRTHOD.** Byddai mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn arwain at oedi wrth fynd i'r afael â threfniadau gwrth-osgoi a nodwyd, gan arwain at osgoi atebolrwydd am gyfnod hir. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13 y Bil wedi cael ei ddylunio'n ofalus i fod mor gyfyngedig â phosibl, gan barhau i alluogi'r bwriad polisi hirsefydlog ac annadleuol y tu ôl i'r darpariaethau i gael ei gyflawni. Bydd cynigion i ddiffinio trefniadau osgoi artiffisial newydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno rheoliadau.

**Argymhelliad 12:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 18.

**GWRTHOD.** Byddai mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn parhau i gael eu cyfyngu o ran newid elfennau o'r disgowntiau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Byddai'n atal Gweinidogion Cymru rhag cyflwyno disgowntiau newydd neu sicrhau y gellir targedu gostyngiadau i helpu i gefnogi'r aelwydydd mwyaf agored i niwed ac incwm isel. Mae'r trefniadau presennol yn gymysgedd o ddarpariaethau nad ydynt mor glir ag y gallent fod, ac nad ydynt yn gweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd.

Gallai dileu'r adran hon roi'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor, ymarferwyr awdurdodau lleol a gwasanaethau cynghori a fyddai'n elwa ar nodau'r polisi i symleiddio'r trefniadau mewn perthynas â Chymru, gan ddarparu eglurder a dileu'r amwysedd sy'n bodoli yn rhai o'r darpariaethau presennol yn Neddf 1992. Gallai dileu'r adran hon hefyd roi rhai talwyr treth y cyngor dan anfantais o ran elwa ar nodau polisi Llywodraeth Cymru o gyflawni nodau economaidd-gymdeithasol ehangach, fel mynd i'r afael â thlodi.

**Argymhelliad 13:** Dylai'r Gweinidog egluro pa weithdrefn craffu fydd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf 1992 (fel y'i diwygiwyd).

**DERBYN.** Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf 1992 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol fel y'i darperir yn barod yn Neddf 1992. Bydd Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa hon.

### **Ymatebion i gasgliadau'r Pwyllgor**

Fe nodwch isod fy mod yn darparu un ymateb i ymdrin â chasgliadau 1-10 ac 12.

**Casgliad 1:** Ni ddylai capasiti a phwysau Llywodraeth Cymru gael eu drysu na'u cyfuno â chapasiti a dyletswydd y Senedd i gyflawni ei swyddogaeth ddeddfwriaethol.

**Casgliad 2:** Rydym yn anghytuno â datganiad y Gweinidog y bydd y "trefniadau a gynigir yn y Bil hwn yn gwella rôl y Senedd yn sylweddol".

**Casgliad 3:** Nid ydym yn glir sut y bydd y Bil, ym marn y Gweinidog, yn "rhoi mwy o bŵer i'r Senedd dros benderfyniadau a wneir yma yng Nghymru mewn perthynas ag ardrethi annomestig a'r dreth gyngor".

**Casgliad 4:** Rydym o'r farn bod sylwadau'r Gweinidog bod y Bil yn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu at y dyfodol yn groes i'w barn ei fod hefyd yn gyson ag egwyddorion hirsefydlog mewn perthynas â rôl y ddeddfwrfa.

**Casgliad 5:** Er ein bod ni'n cydnabod y gallai fod adegau mewn unrhyw flwyddyn benodol lle gallai amgylchiadau brys ac annisgwyl alw am newidiadau deddfwriaethol, nid yw hyn ynddo'i hun yn rheswm digonol i gyfiawnhau cymryd pŵer gweithredol sylweddol pan fydd gan y Senedd weithdrefnau ar waith i ganiatáu craffu cyflym ar ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Casgliad 6:** Nid ydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog y bydd y Bil yn "gadael i lywodraethau'r dyfodol feddwl yn greadigol am wahanol bethau", yn enwedig yng ngoleuni'r cyfyngiadau sydd ar y Senedd ei hun i ddylanwadu ar y "meddwl creadigol" hwn.

**Casgliad 7:** Nid ydym o'r farn bod y Bil yn ffordd briodol i lywodraeth ddeddfu. Ni ddylai llywodraeth gynnig deddfwriaeth sylfaenol sy'n creu pwerau gwneud rheoliadau helaeth er mwyn galluogi llywodraethau'r dyfodol i 'feddwl yn greadigol'. Mae hyn yn hwyluso osgoi craffu manwl gan Aelodau Senedd a etholwyd yn ddemocrataidd.

**Casgliad 8:** Drwy'r Bil, mae'r Gweinidog yn gofyn i'r Senedd hon roi pwerau dirprwyedig eang i lywodraeth anetholedig yn y dyfodol am resymau anhysbys ac i wneud amrywiaeth eang o bethau nad ydynt o reidrwydd yn cael eu deall heddiw. Mae rhoi gormod o bwerau deddfu eilaidd yn gwadu rôl gyfansoddiadol briodol y Senedd.

**Casgliad 9:** Rydym wedi gwneud sylwadau dro ar ôl tro ar y cyfiawnhad 'diogelu at y dyfodol' a gyflwynir yn aml gan Weinidogion Cymru. Mae diogelu deddfwriaeth sylfaenol yn ormodol at y dyfodol yn tynnu pwerau oddi ar Seneddau'r dyfodol ac nid yw'n arfer derbyniol.

**Casgliad 10:** Credwn fod y Bil yn enghraifft o Lywodraeth Cymru yn gwneud dewisiadau deddfwriaethol amhriodol, ac mae hyn yn peri pryder arbennig yng nghyd-destun diwygio'r Senedd.

**Casgliad 12:** Yn unol ag egwyddorion seneddol hirsefydlog, credwn y dylai newidiadau sylweddol i drethiant lleol gael eu gwneud gan ddeddfwriaeth sylfaenol ar ôl datblygu polisi penodol.

**NODWYD.** Fe wnes i gydnabod yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, heb ystyried capasiti, ei fod hefyd yn fater o'r hyn sy'n rhesymol a chymesur o ran deddfu yn y maes hwn. Rwyf wedi nodi fy rhesymau dros y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y Bil hwn, fel mae adroddiad y Pwyllgor wedi cydnabod. Am y rhesymau hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio cael y pwerau hyn i wneud rheoliadau, yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar wahân bob tro y bydd angen newid. Ar sail nifer y newidiadau mewn trethi lleol dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw dull gweithredu o'r fath yn cael ei ystyried yn un y gellir ei gyflawni. Rwyf yn sylweddoli bod gan y Pwyllgor farn wahanol am hyn.

Rwyf hefyd wedi bod yn glir yn fy nhystiolaeth fy mod i o'r farn bod y dull gweithredu arfaethedig a nodir yn y Bil hwn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r system rydym wedi dibynnu arni hyd yma o ran ceisio cydsyniadau i Gymru drwy Filiau Senedd y Deyrnas Unedig.

Yn olaf, nodaf sylw'r Pwyllgor mewn perthynas â gallu cynyddol y Senedd i graffu yn y dyfodol pe bai Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cael ei basio.

**Casgliad 11:** Mae'r Gweinidog yn gofyn i'r Senedd ddirprwyo pwerau sylweddol i'w harfer gan y weithrediaeth a dylai'r Senedd wybod yr union rif, lleoliad a math sydd yn y Bil.

**NODWYD.** Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn argymhelliad 4 yn **Atodiad B** i'r llythyr hwn.

**Casgliad 13:** Mae Adran 9 yn enghraifft arall yn y Bil lle mae pwerau eang i wneud is-ddeddfwriaeth yn cael eu cymryd heb unrhyw dystiolaeth na nod polisi mewn golwg. Nid ydym o'r farn bod hyn yn briodol nac yn dderbyniol.



**NODWYD.** Mae'r cyd-destun a'r rhesymeg y tu ôl i adran 9 y Bil wedi cael eu hegluro. Fel y nodir yn yr wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol, ac a adlewyrchir yn adroddiad y Pwyllgor, nid yw'r pŵer yn adran 9 yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol a dewisol eraill sydd eisoes yn bodoli.

**Casgliad 14:** O ystyried yr enghraifft mae'r Gweinidog wedi ei dyfynnu o ran lluosydd ar gyfer busnesau bach, nid ydym yn glir pam nad yw'r Bil yn cael ei ddefnyddio i greu lluosydd o'r fath.

**NODWYD.** Mae'r mater hwn yn cael ei egluro yn fy ymateb i argymhelliad 7.

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Deddf Lleoliaeth 2011	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1334&amp;Opt=0&amp;AIID=2878">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1334&amp;Opt=0&amp;AIID=2878</a>	<b>Manteision defnyddio'r Bil hwn</b> Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=3938&amp;Opt=2">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=3938&amp;Opt=2</a>  <a href="https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld11580/lcm-ld11580-w.pdf">https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld11580/lcm-ld11580-w.pdf</a>	<b>Manteision defnyddio'r Bil hwn</b> Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Bydd y darpariaethau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau a phryderon Cymru, cyn diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ym mis Mawrth 2013.
Deddf Twf a Seilwaith 2013	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5396&amp;Opt=0&amp;AIID=9232">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5396&amp;Opt=0&amp;AIID=9232</a>  <a href="https://senedd.wales/Laid%20Documents/LCM-LD9146%20-%20Legislative%20Consent%20Memorandum%20-%20%20Growth%20and%20Infrastructure%20Bill,%20Amendments%20to%20the%20Local%20Governme-18122012-241737/lcm-ld9146-e-Cymraeg.pdf">https://senedd.wales/Laid%20Documents/LCM-LD9146%20-%20Legislative%20Consent%20Memorandum%20-%20%20Growth%20and%20Infrastructure%20Bill,%20Amendments%20to%20the%20Local%20Governme-18122012-241737/lcm-ld9146-e-Cymraeg.pdf</a>	<b>Manteision defnyddio'r Bil hwn</b> Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru cyn gynted ag y bo modd. Gallai aros i ddarpariaethau tebyg gael eu cynnwys mewn Bil Cynulliad arwain at oedi a fyddai'n golygu bod Cymru dan anfantais o'i chymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Bydd y darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau Cymru.
Deddf Menter 2016	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=13706&amp;Opt=2&amp;AIID=26">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=13706&amp;Opt=2&amp;AIID=26</a>	<b>Manteision defnyddio'r Bil hwn</b> Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod hi'n briodol delio a'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig ar sail amseru a chydlyniaeth. Mae natur

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
	<a href="#">974</a>  <a href="https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld10372/lcm-ld10372-w.pdf">https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld10372/lcm-ld10372-w.pdf</a>	<p>rhyng-gysylltiedig y systemau ardrethi annomestig gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr a gweithrediad trawsffiniol Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel asiantaeth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn golygu ei bod yn effeithiol ac yn briodol i'r ddarpariaeth ar gyfer gweinyddiaethau Cymru a Lloegr gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.</p>
Deddf Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad Rhag Ardrethi Annomestig) 2018	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=19909">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=19909</a>	<p><b>Manteision defnyddio'r Bil hwn</b>  Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod hi'n briodol delio a'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig ar sail amseru a chydlyniaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu cydraddoldeb â Lloegr i sicrhau nad effeithir yn andwyol ar fuddsoddiad mewn seilwaith ffeibr yng Nghymru. Mae natur gydgyssylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr hefyd yn cefnogi bwrw ymlaen â darpariaeth ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.</p>
Bil Ardrethi Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) 2018	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=22279&amp;Opt=0">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=22279&amp;Opt=0</a>  <a href="https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld11580/lcm-ld11580-w.pdf">https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld11580/lcm-ld11580-w.pdf</a>	<p><b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b>  Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol cadarn ar hyn o bryd o fewn yr amserlen sy'n ofynnol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru yn arwain at ddulliau prisio gwahanol ar waith yng Nghymru a Lloegr am gyfnod, h.y. nes i Fil Llywodraeth Cymru ddod yn gyfraith. Ni fyddai hyn yn ddymunol ac ni fyddai modd ei gyfiawnhau.</p>
Bil Ardrethi Annomestig (Rhestrau) 2019  (Daeth y Bil i ben pan ohiriwyd Senedd y Deyrnas Unedig, ond cafodd ei ailgyflwyno)	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=25705">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=25705</a>	<p><b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b>  Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer rhestrau ardrethi newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ac i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r cadarnhad o'r dyddiad prisio yn y ddeddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Bydd y Bil yn sicrhau bod</p>

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
		amseriad yr ailbrisiad yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr a bod prisiadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson.
Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2019  (Daeth y Bil i ben pan ohiriwyd Senedd y Deyrnas Unedig, ond cafodd ei ailgyflwyno)	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?lld=25775&amp;Opt=2">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?lld=25775&amp;Opt=2</a>	<b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b> Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol sylfaenol addas ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu i'r cyfraddau ar doiledau cyhoeddus gael eu dileu yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Mae cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn darparu cyfradd sero o atebolrwydd am doiledau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn lleihau'r gost o'u cynnal a gallai eu helpu i aros yn agored.
Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2020  (Cafodd y Bil ei ddisodli gan Ddeddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021)	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lld=28724">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lld=28724</a>	<b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b> Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer rhestrau ardrethu newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ac i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r cadarnhad o'r dyddiad prisio yn y ddeddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Byddai angen i Fil Llywodraeth Cymru gael ei osod, ei drafod, ei basio a'i ddechrau cyn diwedd mis Mehefin er mwyn i'r newidiadau fod yn weithredol ar gyfer mis Ebrill 2021. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2016 a rhaid i'r rheoliadau diwygiedig hyn fod mewn grym erbyn 31 Rhagfyr 2020, neu ni fyddant yn weithredol fel arall. Bydd y Bil yn sicrhau bod amseriad yr ailbrisiad yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr a bod prisiadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson.

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Deddf Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2021	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=28394">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=28394</a>	<b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b> Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol sylfaenol addas ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu i'r cyfraddau ar doiledau cyhoeddus gael eu dileu yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Mae cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn darparu cyfradd sero o atebolrwydd am doiledau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn lleihau'r gost o'u cynnal a gallai eu helpu i aros yn agored.
Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) / Deddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=29631&amp;Opt=0">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=29631&amp;Opt=0</a>	<b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b> Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer rhestrau ardrethu newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023 ac i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r cadarnhad o'r dyddiad prisio yn y ddeddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod amseriad yr ailbrisiad yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr a bod prisiadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson.
Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmniau a Ddiddymwyd) 2021	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=37958">https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=37958</a>	<b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b> Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru gan nad oes cyfrwng deddfwriaethol addas yn cael ei gynllunio o fewn yr amserlenni sy'n angenrheidiol ar gyfer y darpariaethau hyn. Byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at ansicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Byddai hefyd yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol. Byddai angen i Fil Llywodraeth Cymru gael ei osod, ei drafod, ei basio a'i gychwyn er mwyn i'r newidiadau fod yn effeithiol yn ôl-weithredol. Byddai unrhyw oedi yn cynyddu'r baich gweinyddol ar drethdalwyr,

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	<b>Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol</b>
		Asiantaeth y Swyddfa Brisiog ac awdurdodau lleol Cymru. Byddai cydsynio i ddarpariaethau yn y Bil yn galluogi datrys y mater yn brydlon, gan alluogi targedu adnoddau'n well a galluogi cyflwyno cymorth wedi ei dargedu ar gyfer trethdalwyr y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio'n negyddol arnynt. Byddai'r Bil yn sicrhau bod y ffordd mae apeliadau'n cael eu trin yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr ac y byddai trethdalwyr Cymru yn cael eu trin yn gyson.
Deddf Ardrethu Annomestig 2023	<a href="https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?lld=41256">https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?lld=41256</a>	<b>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil</b> Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ystyried. Mae'r newidiadau wedi cael eu nodi fel rhai sy'n addas i'w dilyn drwy Fil Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y sail y byddent yn fuddiol i'w rhoi ar waith cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Byddai aros am Fesur Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig Llywodraeth Cymru yn arwain at roi Llywodraeth Cymru a threthdalwyr yng Nghymru dan anfantais, a byddai aildrefnu Bil y Senedd yn cael effeithiau negyddol ehangach ar ein rhaglen ddeddfwriaethol.

**Atodiad B**

<b>Adran o'r Bil</b>	<b>Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig</b>	<b>Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Newydd neu ailddatgan</b>
4	Adran 54AB(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988)	Diwygio adrannau 41ZA(3) a 52ZA(3) o Ddeddf 1988 er mwyn: (a) rhoi blwyddyn wahanol yn lle'r flwyddyn a bennir am y tro fel y flwyddyn ailbriso (b) mewnosod cyfeiriad at flwyddyn wahanol i'r flwyddyn a fyddai fel arall yn flwyddyn ailbriso (c) rhowch gyfnod gwahanol rhwng y blynyddoedd ailbriso yn lle'r bwlch a nodir yno am y tro (d) gwneud diwygiadau eraill sy'n ganlyniadol, neu'n gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed o dan baragraff (a), (b), neu (c)	Drafft cadarnhaol	Newydd
5(2)	Paragraff 8A(2)(b)(i) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad rhannol ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 8B(2) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad llawn ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 8C o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Rhannau 2 a 3 o'r Atodlen at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad a nodir yn y rhannau hynny mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 9A o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Diwygio paragraff 9 o'r Atodlen er mwyn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm taladwy pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys i hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 10(6A) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "F" yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion rhoi rhyddhad rhannol newydd mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
5(3)	Paragraff 2A(2)(b)(i) o Atodlen 4ZB i	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad rhannol ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
	Ddeddf 1988			
	Paragraff 2B(2) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad llawn ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 2C o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Atodlen at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad a nodir yn y rhan hwnnw mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 2E o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Diwygio paragraff 2D o'r Atodlen er mwyn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm taladwy pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys i hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 3(5A) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "F" yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion rhoi rhyddhad rhannol newydd mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
5(4)	Paragraff 4A(2)(b)(i) o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad rhannol ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 4B(2) o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad llawn ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 4C o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Atodlen at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad a nodir yn y rhan hwnnw mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 5B o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Diwygio paragraff 5A o'r Atodlen er mwyn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm taladwy pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys i hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 6(5A) o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "F" yn y fformiwla at ddibenion rhoi rhyddhad rhannol newydd mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
9(2)	Paragraff 20A(1) o	Mewnsood, diwygio, dirymu neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth	Drafft	Newydd



Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
	Atodlen 5 i Ddeddf 1988	yn yr Atodlen i roi, amrywio neu dynnu eithriad yn ôl	cadarnhaol	
10	Paragraff A16(1)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Nodwch y disgrifiad o hereditamentau rhestr leol a fydd yn ddarostyngedig i luosydd gwahaniaethol	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff A16(1)(b) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Nodwch werth ardrethol hereditamentau rhestr ganolog i fod yn ddarostyngedig i luosydd gwahaniaethol	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff A16(2)(b) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "N" at ddibenion cyfrifo lluosydd gwahaniaethol	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff A18(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Yn lle cyfeiriadau at y mynegai prisiau defnyddwyr mae cyfeiriadau at fynegai arall, at ddibenion cyfrifo'r lluosydd	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei ddiwygio)
	Paragraff A18(b)(i) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Amnewid y ffigur ar gyfer B yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo'r lluosydd	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei newid)
	Paragraff A18(b)(ii) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Amnewid y ffigur ar gyfer C yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo'r lluosydd	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei newid)
13	Adran 63H(1)(a) o Ddeddf 1988	Nodi math o drefniant osgoi artiffisial i'w wrthweithio yn unol â'r darpariaethau yn adran 13 y Bil	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 63M(1) o Ddeddf 1988	Darparu ar gyfer gosod cosb ariannol am fethu â thalu swm oherwydd gwrthweithio mantais a geir o wneud trefniant osgoi artiffisial	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 63M(6) o Ddeddf 1988	Gosod uchafswm y gosb a bennir yn yr adran honno yn lle swm gwahanol	Drafft cadarnhaol	Newydd
17	Adran 5(4B)(a) a (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992)	Diwygio neu ddisodli'r cyfrannau a'r bandiau a ddefnyddir mewn cyfrifiadau treth gyngor	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei ddiwygio)

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
	Adran 5(4B)(c) a (d)	Diwygio'r band prisio a ddefnyddir fel pwynt canol mewn fformiwlâu a ddefnyddir o dan adrannau 36 a 47 o Ddeddf 1992 a ddefnyddir i gyfrifo swm y dreth gyngor sy'n daladwy	Drafft cadarnhaol	Newydd
18	Adrannau 6 a 9 o Ddeddf 1992	Rhagnodi pa bobl y dylid eu diystyru er mwyn pennu atebolrwydd ar y cyd ac unigol mewn perthynas â'r dreth gyngor	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 11E o Ddeddf 1992	Gwneud rheoliadau i: (a) bennu'r lefelau a rhagnodi'r amodau neu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cael er mwyn i ddisgownt fod yn berthnasol (b) pennu categorïau o breswylwyr a ddiystyrir at ddibenion disgownt	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 11F o Ddeddf 1992	Rhagnodi dosbarthiadau o anheddau y caiff awdurdod bilio, drwy ddyfarniad, ddatgymhwyso neu ostwng disgownt mewn perthynas â nhw	Drafft cadarnhaol	Ailddatgan (gyda diwygiad)
19	Adran 13 o Ddeddf 1992	Darparu ar gyfer pobl sy'n atebol i dalu treth gyngor i dalu llai o dreth mewn rhai amgylchiadau	Negyddol	Newydd
21	Adran 22B(3C) o Ddeddf 1992	Diwygio is-adran (3B) er mwyn: (a) rhoi blwyddyn wahanol yn lle'r flwyddyn a bennir am y tro fel y flwyddyn ailbrisio (b) mewnosod cyfeiriad at flwyddyn wahanol i'r flwyddyn a fyddai fel arall yn flwyddyn ailbrisio (c) rhoi bwlch gwahanol rhwng blynyddoedd ailbrisio (d) gwneud diwygiadau eraill i is-adran (3B) sy'n ganlyniadol, neu'n gysylltiedig â'r diwygiadau a wneir o dan baragraff (a), (b) neu (c)	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 22B(7A)(a) o Ddeddf 1992	Pennu dyddiad ac eithrio 1 Medi ar gyfer rhestr ddrafft a luniwyd o dan is-adran 22B(3A) i'w hanfon at awdurdodau gan y Swyddog Rhestru	Negyddol	Newydd
23	Amh	Gwneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed fel sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Bil	Drafft cadarnhaol i	Newydd

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
			ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ond negyddol fel arall	
Paragraff 12(2)(m) o'r Atodlen	Paragraff 5F(A1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988	Gwneud rheoliadau ynghylch yr hysbysiadau y gellir eu cyhoeddi mewn perthynas â'r dyletswyddau hysbysu a gaiff eu hymestyn i Gymru gan adran 12 y Bil	Negyddol	Newydd
Paragraff 12(2)(n) o'r Atodlen	Paragraff 5FB o Atodlen 9 i Ddeddf 1988	Gwneud rheoliadau i gynyddu neu leihau swm unrhyw gosb a ddyroddir mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau hysbysu a estynnir i Gymru gan adran 12 o'r Bil	Drafft cadarnhaol	Newydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon